

Rhif ymchwil gymdeithasol: 91/2026

Dyddiad cyhoeddi: 13/10/2026

Gwerthusiad o Bolisi Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd Llywodraeth Cymru: yr ail adroddiad interim



This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Gwerthusiad o Bolisi Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion
Cynradd Llywodraeth Cymru: yr ail adroddiad interim

Awduron: Haysey, Nicola; Smiles, Beth; Cooper, Priya; Kettle,
Ellie; Diaz, Dr Alice; Harding, Ryan; Charalambous, Steph

Adroddiad Ymchwil Llawn: Haysey, N et al. (2026). Gwerthusiad o Bolisi
Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd Llywodraeth Cymru: yr
ail adroddiad interim. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil
Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 91/2026.

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar dudalennau Ystadegau ac Ymchwil gwefan
Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil>

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth
Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	3
Rhestr o ffigurau	4
Geirfa.....	6
1. Cyflwyniad a chefnidir	7
1.1. Cyd-destun polisi	7
1.1.1. Gweithredu'r polisi	8
1.1.2. Dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.....	8
1.1.3. Rheoliadau Bwyta'n lach	9
1.2. Nodau ac amcanion y gwerthusiad.....	10
1.3. Strwythur yr adroddiad.....	10
2. Methodoleg yr arolwg	11
2.1. Dosbarthiad yr arolwg o rieni a gofalwyr.....	11
2.2. Dull samplu.....	11
2.3. Cynllun yr arolwg	11
2.4. Dadansoddiad	12
2.5. Cyflwyno'r canfyddiadau.....	12
2.6. Cyfyngiadau.....	13
3. Proffil yr ymatebwyr.....	14
3.1. Cefndir yr ymatebwyr.....	14
3.1.1. Nodweddion yr aelwyd	14
3.1.2. Nodweddion y dysgwyr.....	14
3.1.3. Cymhwysra prydau ysgol am ddim sy'n destun prawf modd	15
3.1.4. Lleoliad yr ysgolion	15
3.1.5. Nodweddion o ran cydraddoldeb	15
3.2. Ymwybyddiaeth a chefnogaeth i'r polisi.....	15
4. Trafodaeth ar y canfyddiadau.....	16
4.1. Pa ffactorau sy'n effeithio ar y nifer sy'n manteisio ar y cynnig UPFSM?	17
4.1.1. Trosolwg o faint o bobl sy'n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim	18
4.1.2. Yr hyn sy'n ysgogi dysgwyr i fanteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim	22
4.1.3. Rhwystrau o ran manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim	25
4.2. Pa effaith mae'r polisi wedi'i chael ar iechyd a llesiant plant?.....	28
4.2.1. Iechyd ac ansawdd maethol prydau ysgol.....	28

4.2.2.	Canfyddiadau ar effaith UPFSM ar iechyd a llesiant plant.....	29
4.3.	Beth yw'r effeithiau ar fywyd ysgol sy'n dod i'r amlwg o'r polisi?.....	32
4.3.1.	Effaith ar y profiad o amser cinio	33
4.3.2.	Effaith ar weddill y diwrnod ysgol.....	39
4.4.	Pa effaith mae'r polisi wedi'i chael ar deuluoedd?	40
4.4.1.	Arbedion ariannol	40
4.4.2.	Effeithiau ar fywyd teuluol.....	44
5.	Casgliadau	45
5.1.	Crynodeb o'r prif ganfyddiadau.....	45
5.2.	Myfyrdodau.....	46
5.3.	Camau nesaf	47
	Atodiad 1: Atodiad methodolegol	48
	Atodiad 1.1: Cynllun yr arolwg.....	48
	Atodiad 1.2: Dosbarthiad a chyfyngiadau'r arolwg	48
	Atodiad 1.3: Dadansoddiad o'r arolwg.....	49
	Atodiad 2: Proffil ymatebion yr arolwg.....	50
	Atodiad 3: Profion ystadegol	53
	Atodiad 3.1: Cyflwyniad.....	53
	Atodiad 3.2: Dulliau	53
	Atodiad 4: Sgript yr arolwg.....	55

Rhestr o dablau

Tabl 1: ymatebion i'r cwestiwn "pam ydych chi, fel teulu, yn dewis ciniawau ysgol, boed bob dydd neu ar ddiwrnodau dethol?" yn ôl incwm yr aelwyd (n = 1,157).....	24
Tabl 2: Nifer yr unigolion a ymatebodd i'r arolwg fesul awdurdod lleol.....	50
Tabl 3: ymatebion i'r arolwg yn ôl a oes gan y dysgwr ADY	51
Tabl 4: ymatebion i'r arolwg yn ôl a yw'r dysgwr yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim sy'n destun prawf modd (dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim)	51
Tabl 5: ymatebion i'r arolwg yn ôl a yw'r dysgwr yn mynychu ysgol drefol neu wledig.....	51
Tabl 6: ymatebion i'r arolwg fesul incwm aelwyd, cyn treth a chan gynnwys budd-daliadau.....	52

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: ymatebion i'r cwestiwn "ar gyfartaledd, faint o giniawau ysgol mae eich plentyn yn eu bwyta bob wythnos?" (n = 1,517)	19
Ffigur 2: ymatebion i'r cwestiwn "ar gyfartaledd, faint o giniawau ysgol mae eich plentyn yn eu bwyta bob wythnos?" yn ôl grŵp blwyddyn	19
Ffigur 3: ymatebion i'r cwestiwn "yn gyffredinol, a yw nifer y ciniawau ysgol y mae eich plentyn yn eu cael bob wythnos wedi newid ers gweithredu'r polisi UPFSM?" yn ôl incwm aelwyd (n = 796)	21
Ffigur 4: ymatebion i'r cwestiwn "pam ydych chi, fel teulu, yn dewis ciniawau ysgol, boed bob dydd neu ar ddiwrnodau dethol?" (n = 1,403).....	23
Ffigur 5: ymatebion i'r cwestiwn "pam ydych chi, fel teulu, yn dewis peidio â chael ciniawau ysgol, boed bob dydd neu ar ddiwrnodau dethol?" (n = 636)	26
Ffigur 6: ymatebion i'r cwestiwn "yn gyffredinol, sut fydddech chi'n graddio'r ciniawau ysgol sydd ar gael yn ysgol eich plentyn o ran ieched a maeth?" (n = 1,517).....	28
Ffigur 7: ymatebion i'r cwestiwn "pa effeithiau, os o gwbl, ydych chi'n credu bod cyflwyno'r polisi UPFSM wedi'u cael ar ieched a llesiant eich plentyn?" (n = 1,517).....	30
Ffigur 8: ymatebion i'r cwestiwn "pa effeithiau, os o gwbl, ydych chi'n credu y mae cyflwyno'r polisi UPFSM wedi'u cael ar ieched a llesiant eich plentyn?" yn ôl incwm yr aelwyd	31
Ffigur 9: ymatebion i'r cwestiwn "a yw eich plentyn wedi sôn am unrhyw newidiadau i'r canlynol ers cyflwyno UPFSM" (n = 1,517)	34
Ffigur 10: ymatebion i'r cwestiwn "a yw eich plentyn wedi sôn am unrhyw newidiadau i'r canlynol ers cyflwyno UPFSM: darparu ar gyfer anghenion deietegol penodol (e.e. alergeddau neu broblemau synhwyrdd)" yn ôl angen deietegol penodol.....	38
Ffigur 11: ymatebion i'r cwestiwn "a yw argaeledd cinio ysgol am ddim wedi cael effaith ar gyllid eich teulu? (e.e. arbedion cost o beidio â gorfod paratoi pecynnau cinio a/neu dalu am brydau ysgol)" (n = 1,517)	40
Ffigur 12: ymatebion i'r cwestiwn "tua faint o arian ydych chi'n ei arbed bob wythnos nawr drwy baratoi llai o becynnau cinio?" a "tua faint o arian ydych chi'n ei arbed bob wythnos nawr drwy beidio â gorfod talu am giniawau ysgol?" pan nododd yr ymatebwyr eu bod wedi arbed drwy'r ddau ddull (n = 419)	42
Ffigur 13: ymatebion i'r cwestiwn "tua faint o arian ydych chi'n ei arbed bob wythnos nawr drwy baratoi llai o becynnau cinio?" a "tua faint o arian ydych chi'n ei arbed bob wythnos nawr drwy baratoi llai o becynnau cinio?" pan nododd yr ymatebwyr eu bod wedi arbed drwy un dull yn unig	43

Geirfa

ADY

Anghenion dysgu ychwanegol

UPFSM

Prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd

Y DU

Y Deyrnas Unedig

1. Cyflwyniad a chefnidir

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o arolwg o rieni a gofalwyr a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2025, fel rhan o werthusiad Llywodraeth Cymru o bolisi prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (UPFSM). Cafodd yr arolwg ymatebion gan rieni a gofalwyr plant sy'n mynychu ysgolion cynradd a gynhelir gan awdurdodau lleol ledled Cymru. Archwiliodd ymwybyddiaeth o'r polisi, patrymau o ran manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim, ac effeithiau canfyddedig ar ddysgwyr, bywyd ysgol a theuluoedd. Mae'r canfyddiadau a gyflwynwyd yn darparu tystiolaeth am brofiadau rhieni a gofalwyr o UPFSM yn dilyn cwblhau'r broses o gyflwyno'r polisi yn genedlaethol.

1.1. Cyd-destun polisi

Cyhoeddwyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i UPFSM ym mis Rhagfyr 2021 ac fe'i nodir yn y cytundeb cydweithio rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru ([Cytundeb Cydweithio](#)). Daeth y polisi i'r amlwg mewn ymateb i bryderon cynyddol ynghylch ansicrwydd bwyd a chostau byw cynyddol, y gwaethygydd y ddau gan bandemig y coronafeirws (COVID-19). Yn ystod cyfnodau o gau ysgolion a gwyliau, roedd llawer o ddysgwyr yn wynebu ansicrwydd bwyd, gan dynnu sylw at yr angen am ddarpariaeth fwyd fwy dibynadwy a hygyrch. Ers hynny, mae UPFSM wedi dod yn hawlogaeth sydd wedi'i hymgorffori'n genedlaethol ar gyfer pob dysgwr oedran cynradd sy'n mynychu ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae cyllid parhaus wedi'i nodi o fewn cyllideb 2026 i 2027 i gefnogi parhad y polisi.

Ar yr adeg y cyflwynwyd UPFSM, nid oedd y trothwy incwm ar gyfer prydau ysgol am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd (dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim) wedi'i ddiweddarau ers 2019. Credwyd bod y trothwy hwn, a oedd wedi aros yr un fath, wedi cyfrannu at ostyngiad parhaus yn nifer y dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yng Nghymru ([Prydau ysgol am ddim yng Nghymru](#)). I lawer o deuluoedd, dim ond drwy amddiffyn wrth bontio y cynhaliwyd cymhwysra – mesur diogelu a gyflwynwyd pan newidiodd y meini prawf cymhwysra, gan ganiatáu i blant a oedd yn gymwys yn flaenorol ar gyfer prydau ysgol am ddim gadw eu hawlogaeth, hyd yn oed pe bai amgylchiadau eu cartref yn symud uwchlaw'r trothwy yn ddiweddarach. Daeth y cynnig amddiffyn wrth bontio i ben ar 1 Ionawr 2024, er bod dysgwyr a oedd yn gymwys cyn y dyddiad hwn yn gallu cael prydau ysgol am ddim tan ddiwedd eu cyfnod addysg presennol.

Dylanwadodd y dirwedd wleidyddol ar ddatblygiad y polisi, ac roedd awdurdodau lleol yn awyddus i weithredu newidiadau'n gyflym er budd teuluoedd. Cafodd y fenter ei fframio hefyd o fewn cyd-destun ehangach argymhellion o Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru (2020 i 2021) ([Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2020/21](#)), a oedd yn annog adolygiad o hawlogaethau bwyd mewn ysgolion, gan gynnwys dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Roedd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r polisi hwn a'i hamcanion llywodraethol ehangach mewn perthynas â thlodi plant, ffyrdd o fyw iachach a llesiant cenedlaethau'r dyfodol ([Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)) yn cyd-fynd â'i gilydd hefyd. Roedd UPFSM yn rhan o ddull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd yn ystod plentyndod a'r heriau cysylltiedig. Roedd y polisi hefyd yn anelu at sicrhau buddion economaidd ehangach drwy ddefnyddio buddsoddiad yn system fwyd ysgolion

Cymru i gryfhau cadwyni cyflenwi lleol, meithrin gwydnwch a chynyddu graddfa ([Rhaglen yr economi sylfaenol](#)).

Yn dilyn etholiad y Senedd ym mis Mai 2026, parhaodd y dirwedd bolisi i esblygu o dan Lywodraeth Gymru dan arweiniad Plaid Cymru. Er ei bod yn cynnal cefnogaeth i UPFSM, nododd y llywodraeth newydd ei bwriad i adeiladu ar y polisi trwy ehangu darpariaeth prydau ysgol am ddim. Ym mis Mehefin 2026, cyhoeddwyd buddsoddiad ychwanegol o £15 miliwn i ehangu cymhwysra i ddysgwyr ysgol uwchradd mewn aelwydydd sy'n cael Credyd Cynhwysol, a bydd y trothwy incwm presennol yn cael ei ddileu'n raddol ([Buddsoddiad o £15 miliwn mewn prydau ysgol am ddim i ddisgyblion uwchradd cymwys](#)). Mae hyn yn gosod UPFSM fel rhan o raglen weithredu ehangach i wella mynediad at fwyd ysgol a mynd i'r afael â thlodi plant.

1.1.1. Gweithredu'r polisi

Cyflwynwyd y polisi UPFSM fesul cam, gan ddechrau ym mis Medi 2022, gyda'r dysgwyr ysgol gynradd ieuengaf (dosbarth derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) cyn cael ei ehangu i grwpiau blwyddyn hŷn. Datblygwyd y cyflwyniad graddol hwn mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol i sicrhau y gellid ehangu'r polisi yn ddiogel ac yn gyson ledled Cymru. I gefnogi hyn, gosododd Llywodraeth Cymru gerrig milltir cenedlaethol a safonau gofynnol, gan sefydlu llinell sylfaen a rennir o ran darpariaeth. Roedd hyn yn golygu bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyrraedd o leiaf yr un lefel isafswm o ddarpariaeth ar yr un pryd. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi gallu gwneud cynnydd yn gyflymach, roedd y dull hwn yn cyfyngu ar anghydraddoldebau mawr o ran mynediad ac yn sicrhau nad oedd unrhyw ardal yn cael ei gadael ar ôl. Rhoddwyd blaenoriaeth i blant iau oherwydd eu bod yn ystadegol yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tldi incwm cymharol. O ganlyniad, y garfan gyntaf oedd yn gymwys ar gyfer UPFSM yng Nghymru oedd plant a aned ar neu ar ôl 1 Medi 2018 ([Tldi incwm cymharol: Ebrill 2019 i Fawrth 2020](#)).

1.1.2. Dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim

Er y gall pob ysgol gynradd a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru bellach gael mynediad at y cynnig UPFSM, efallai y bydd gan ddysgwr hawl i brydau ysgol am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd (dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim) ([Prydau ysgol am ddim: gwybodaeth i awdurdodau lleol ac ysgolion](#)). Mae cymhwysra yn dibynnu ar a yw'r rhiant/gofalwr yn cael un neu fwy o'r canlynol:

- cymhorthdal incwm
- lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm
- lwfans cyflogaeth a chymorth yn seiliedig ar incwm
- cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- elfen warantedig o Gredyd Pensiwn
- Credyd Cynhwysol (cyn belled â bod incwm net blynyddol yr aelwyd yn llai na £7,400, heb gynnwys budd-daliadau)

Mae niferoedd y dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cyfrannu at sut mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddyrannu ([Y Grant Datblygu Disgyblion: trosolwg](#)). Mae dyrannu cyllid grant yn canolbwyntio ar wyth prif faes:

- dysgu ac addysgu o ansawdd uchel
- ysgolion bro
- chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar
- dyheadau uchel wedi'u cefnogi gan gydberthnasau cryf
- iechyd a llesiant
- arweinyddiaeth
- y Cwricwlwm i Gymru a chymwysterau
- cefnogi cynnydd ôl-16

Telir cyllid y Grant Datblygu Disgyblion yn uniongyrchol i awdurdodau lleol ac fe'i dosbarthir yn bennaf i ysgolion, ac mae rhywfaint o gyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi plant sy'n cael gofal gan awdurdodau lleol, sy'n gweithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio at ei ddibenion bwriadedig, fel yr amlinellwyd uchod.

Cymhwysra dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yw'r prif lwybr hefyd y gall teuluoedd gael mynediad at Grant Hanfodion Ysgol Llywodraeth Cymru ([Grant Hanfodion Ysgol: help gyda chostau ysgol](#)). Mae'r Grant Hanfodion Ysgol yn helpu teuluoedd gyda chost gwisgoedd ysgol, offer, ac eitemau eraill sydd eu hangen ar gyfer yr ysgol.

1.1.3. Rheoliadau Bwyta'n Iach

Mae pob ysgol gynradd yng Nghymru yn ddarostyngedig i Reoliadau Bwyta'n Iach 2013 ([Rheoliadau Bwyta'n Iach](#)). Mae'r rheoliadau'n nodi safonau maethol a gofynion bwyd a diod drwy gydol y diwrnod ysgol yn ogystal ag ar gyfer cinio cyffredin. Rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2025, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar fwyta'n iach mewn ysgolion, a'r bwriad yw diweddarau pa fwyd a diodydd y gellir eu darparu mewn ysgolion a'r canllawiau a'r cyfrifoldebau ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ([Bwyta'n iach mewn ysgolion](#)). Ar adeg ysgrifennu, mae'r Rheoliadau Bwyta'n Iach diwygiedig ar gyfer ysgolion meithrin a chynradd a gynhelir ([Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion 2025](#)) wedi'u cyflwyno gerbron y Senedd (17 Rhagfyr 2025) a disgwylir iddynt ddod i rym ar 31 Hydref 2026.

Mae newidiadau nodedig i'r rheoliadau'n cynnwys yr ystod o fwydydd penodol a mwy o ffrwythau a llysiau ochr yn ochr â therfynau ar fwydydd wedi'u ffrio, pwdinau sy'n cynnwys llawer o siwgr, a chig wedi'i brosesu. Er enghraifft, rhaid darparu o leiaf dau ddogrn o lysiau bob dydd, ac o leiaf chwe llysieuyn gwahanol bob wythnos. Yn yr un modd, rhaid darparu o leiaf un dogrn o ffrwythau bob dydd, ac o leiaf pedwar ffrwyth gwahanol bob wythnos.

Mae'n debygol y bydd y Rheoliadau Bwyta'n Iach wedi'u diweddarau yn effeithio ar gyflawniad ac effaith y polisi UPFSM yng Nghymru. Ar y naill law, drwy ddiwygio safonau

maethol, mae'r rheoliadau'n anelu at wella cynnwys maethol y bwyd a'r ddiod a weinir, sy'n cefnogi amcanion ehangach y polisi o wella iechyd a llesiant plant. Ar y llaw arall, efallai y bydd gan y newidiadau oblygiadau ymarferol i awdurdodau lleol, ysgolion a darparwyr arlwygo sy'n darparu UPFSM, gan gynnwys addasiadau i fwydlenni, caffael a gweithrediadau ceginau. Wrth i'r rheoliadau ddod i rym o fis Hydref 2026, bydd y graddau y mae heriau gweithredu, megis pwysau cost, cyfyngiadau'r gadwyn gyflenwi neu gapasiti'r gweithlu, yn cael eu rheoli, ochr yn ochr â sut mae dysgwyr yn ymateb i'r bwydlenni diwygiedig ac unrhyw newidiadau sy'n deillio o ganlyniad i newid yn nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig, yn ystyriaeth bwysig yng nghanol olaf y gwerthusiad hwn.

1.2. Nodau ac amcanion y gwerthusiad

Ym mis Medi 2024, comisiynodd llywodraeth flaenorol Cymru ICF Consulting Services Ltd mewn partneriaeth ag Ymchwil Arad i ddylunio a chyflawni gwerthusiad o'r polisi UPFSM. Nod y gwerthusiad yw darparu tystiolaeth gynhwysfawr ar weithrediad, effeithiau cynnar a photensial tymor hwy'r polisi.

Canolbwyntiodd cam cyntaf y gwerthusiad, a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Medi 2025, ar baratoi a chyflwyno'r polisi. Cyflwynwyd canfyddiadau o'r cam hwn mewn adroddiad interim (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel yr adroddiad interim cyntaf) ([Gwerthusiad o Bolisi Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd Llywodraeth Cymru: Adroddiad Interim](#)). Crynhodd yr adroddiad hwn, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2026, ganfyddiadau o waith maes a gynhaliwyd ac archwiliodd brofiadau gweithredu cynnar, effeithiau sy'n dod i'r amlwg, a gwersi ar gyfer parhau i gyflawni'r polisi. Roedd yn tynnu ar dystiolaeth a gasglwyd drwy'r dulliau canlynol:

- 39 o gyfweiliadau lled-strwythuredig â chynrychiolwyr awdurdodau lleol, darparwyr bwyd ysgol a rhanddeiliaid ehangach
- 13 astudiaeth achos fanwl o ysgolion ar draws saith awdurdod lleol
- arolwg ysgolion ar gyfer uwch-arweinwyr

Mae'r ail adroddiad interim hwn yn adeiladu ar ganfyddiadau'r adroddiad interim cyntaf drwy gyflwyno tystiolaeth o arolwg rhieni a gofalwyr a gwblhawyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2025. Mae'n canolbwyntio ar safbwyntiau rhieni a gofalwyr ar UPFSM, gan gynnwys ymwybyddiaeth, profiadau o allu cael y cynnig a manteisio arno, buddion canfyddedig, ac unrhyw rwystrau sy'n parhau. Mae'r canfyddiadau hyn yn ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth ehangach ar sut mae'r polisi'n gweithredu a'r broses gyflwyno genedlaethol bellach wedi'i chwblhau.

1.3. Strwythur yr adroddiad

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn disgrifio'r fethodoleg, y canfyddiadau a'r casgliadau a dynnwyd o'r arolwg o rieni a gofalwyr. Mae wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn disgrifio methodoleg yr arolwg o rieni a gofalwyr ac yn tynnu sylw at unrhyw gyfyngiadau
- Mae Pennod 3 yn amlinellu proffil yr arolwg

- Mae Pennod 4 yn cyflwyno trafodaeth ar ganfyddiadau'r arolwg
- Mae Pennod 5 yn cloi'r adroddiad ac yn nodi'r camau nesaf ar gyfer y gwerthusiad

2. Methodoleg yr arolwg

Y prif weithgaredd casglu data sy'n cyfrannu at yr adroddiad hwn yw'r arolwg o rieni a gofalwyr, yr oedd 1,517 o ymatebion iddo, ac a anelodd at gasglu barn rhieni a gofalwyr ar y polisi UPFSM.

2.1. Dosbarthiad yr arolwg o rieni a gofalwyr

Lansiwyd yr arolwg rhieni a gofalwyr ar 7 Hydref 2025 a daeth i ben ar 10 Rhagfyr 2025. Gwahoddwyd ysgolion cynradd a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru i rannu'r arolwg â rhieni a gofalwyr trwy sianeli cyfathrebu, gan gynnwys e-bost, cylchlythyrau neu blatfformau digidol. Anfonwyd cyfanswm o dri nodyn atgoffa ar ffurf negeseuon e-bost yn ystod y cyfnod hwn i ysgolion nad oeddent wedi ymateb. Cafwyd ymatebion gan 136 o ysgolion, sy'n cynrychioli 11% o ysgolion cynradd a gynhelir gan yr awdurdodau lleol yng Nghymru.

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein ac yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cwblhaodd bron pob un (98%) o'r ymatebwyr yr arolwg yn Saesneg. Roedd cyfranogiad yn wirfoddol ac roedd yr ymatebion yn ddienw.

2.2. Dull samplu

Gwahoddwyd pob un o'r 1,199 o ysgolion cynradd a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion arbennig â dysgwyr oedran cynradd, i gymryd rhan yn yr arolwg. Bwriad y dull dosbarthu agored hwn oedd cynyddu cyfleoedd i gymryd rhan ledled Cymru i'r eithaf.

Ni ddefnyddiodd yr arolwg sampl ar hap na sampl haenedig. Felly ni ddylid trin canfyddiadau fel rhai sy'n gynrychioliadol yn ystadegol o bob rhiant a gofalwr yng Nghymru. Fel sy'n wir am bob arolwg gwirfoddol, gall y rhai a ddewisodd ymateb fod yn wahanol i'r rhai na wnaeth ymateb. Er enghraifft, efallai fod gan yr ymatebwyr farn gryfach ar y polisi neu'n ymgysylltu'n fwy â chyfathrebiadau'r ysgol.

Cafodd ymatebion eu monitro drwy gydol cyfnod y gwaith maes i annog cwmpas daearyddol eang. Fodd bynnag, roedd nifer yr ymatebion yn amrywio'n sylweddol ar draws awdurdodau lleol. Mae hyn yn golygu bod rhai canfyddiadau ar gyfer grwpiau neu ardaloedd awdurdodau lleol penodol yn seiliedig ar nifer fwy o ymatebion nag eraill ac felly dylid eu dehongli'n ofalus.

2.3. Cynllun yr arolwg

Cafodd yr holiadur ei lywio gan ddamcaniaeth newid y gwerthusiad a chanolbwyntiodd ar y materion mwyaf perthnasol i rieni a gofalwyr. Roedd yn cynnwys cwestiynau caeedig yn bennaf, ochr yn ochr â nifer o gwestiynau testun agored dewisol lle gallai ymatebwyr ddarparu rhagor o fanylion.

Roedd y cwestiynau'n ymdrin â'r themâu canlynol:

- nodweddion aelwydydd a dysgwyr
- ymwybyddiaeth o'r polisi
- effaith y polisi ar fywyd ysgol
- effaith y polisi ar iechyd a llesiant plant
- effaith y polisi ar deuluoedd

Profwyd yr arolwg yn fewnol o fewn ICF ac Ymchwil Arad cyn ei lansio i sicrhau bod y cwestiynau'n glir ac yn hygyrch.

2.4. Dadansoddiad

Glanhawyd a dadansoddwyd data'r arolwg gan ddefnyddio dulliau meintiol safonol. Cynhyrchwyd ystadegau disgrifiadol i grynhoi patrymau ymateb. Cynhaliwyd dadansoddiad cymharol hefyd ar gyfer grwpiau dethol, gan gynnwys:

- dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a hebddyn nhw
- dysgwyr sy'n gymwys ac nad ydynt yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd (dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim)
- dysgwyr sy'n mynychu ysgolion gwledig a threfol
- aelwydydd â gwahanol lefelau o incwm

Pan fo'n briodol, cynhaliwyd profion ystadegol i nodi gwahaniaethau ystyrlon rhwng grwpiau. Darperir canlyniadau llawn y profion ystadegol yn Atodiad 2: Proffil ymatebion yr arolwg.

Dadansoddwyd ymatebion i gwestiynau testun agored yn thematig i nodi safbwyntiau, profiadau ac awgrymiadau cyffredin. Cynhaliwyd gwiriadau o ddibynadwyedd rhwng codwyr i sicrhau cysondeb yn y dadansoddiad ar draws cwestiynau.

2.5. Cyflwyno'r canfyddiadau

Drwy gydol yr adroddiad, cyfeirir at dermau megis 'mwyafrif mawr', 'lleiafrif bach' ac 'ychydig' o bryd i'w gilydd. Mae nifer yr ymatebwyr y mae hyn yn eu disgrifio yn berthynol i'r sampl y cyfeirir ati. Defnyddir y disgrifwyr canlynol i nodi cyfran yr ymatebwyr:

- yr holl ymatebwyr: 100%
- bron pob ymatebydd: 90% i 99%
- y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr: 75% i 89%
- y mwyafrif o'r ymatebwyr: 51% i 74%
- dros hanner yr ymatebwyr: 51% i 55%

- hanner yr ymatebwyr: 50%
- bron i hanner yr ymatebwyr: 45% i 49%
- lleiafrif o ymatebwyr: 25% i 44%
- lleiafrif bach o ymatebwyr: 10% i 24%
- ychydig o ymatebwyr: 0% i 9%

Mae'r canrannau a gyflwynir drwy gydol yr adroddiad yn seiliedig ar y rhai a atebodd bob cwestiwn. Efallai na fydd canrannau bob amser yn cyfateb i 100 oherwydd talgrynnu neu gallai ymatebwyr fod wedi dewis mwy nag un ateb.

Profwyd gwahaniaethau rhwng grwpiau a ddisgrifir fel rhai ystadegol arwyddocaol ar lefel hyder 95% ($p < 0.05$) gan ddefnyddio prawf chi sgwâr ar gyfer annibyniaeth. Pan drafodwyd gwahaniaethau yng nghryfder y cysylltiad neu'r dosbarthiad, aseswyd y rhain gan ddefnyddio V Cramér. Darperir rhagor o fanylion am brofion ystadegol yn Atodiad 3: Profion ystadegol.

Nid yw ymatebion testun agored wedi'u meintoli. Yn hytrach, defnyddir termau disgrifiadol i roi syniad cyffredinol o ba mor aml yr ymddangosodd thema yn yr ymatebion ysgrifenedig. Mae dyfyniadau dienw dethol wedi'u cynnwys i ddangos themâu a rhoi enghreifftiau o safbwyntiau rhieni a gofalwyr. Fodd bynnag, nid ydynt yn dangos pa mor eang yr oedd barn benodol yn cael ei dal. Cyflwynir mewnwelediadau o ymatebion ysgrifenedig ochr yn ochr â'r canlyniadau ystadegol i roi cyd-destun ychwanegol a helpu i esbonio'r canfyddiadau, yn hytrach na darparu mesur cynrychioliadol o safbwyntiau'r ymatebwyr.

Mae'r adroddiad yn defnyddio'r term 'pryd ysgol' i gyfeirio at y pryd amser cinio a weinir mewn ysgolion cynradd. Mae hyn yn adlewyrchu'r iaith a ddefnyddir ym mholisi UPFSM, ond mae'n werth nodi bod rhieni a gofalwyr weithiau'n cyfeirio at y pryd hwn gan ddefnyddio termau amgen megis 'cinio ysgol'. Defnyddiwyd y term 'cinio ysgol' hefyd yn holiadur yr arolwg o rieni a gofalwyr i wahaniaethu rhwng y pryd amser cinio a mathau eraill o ddarpariaeth bwyd sydd ar gael mewn ysgolion ac felly fe'i cedwir wrth gyfeirio at gwestiynau ac ymatebion yr arolwg.

2.6. Cyfyngiadau

Ni chynlluniwyd yr arolwg sy'n llywio'r adroddiad hwn i fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth rhieni a gofalwyr yng Nghymru. Felly, dylid dehongli canfyddiadau fel rhai sy'n adlewyrchu barn ymatebwyr yr arolwg yn hytrach na barn yr holl rieni a gofalwyr yn genedlaethol.

Mae canfyddiadau hefyd yn adlewyrchu canfyddiadau rhieni a gofalwyr o sut mae UPFSM wedi effeithio ar eu plentyn a'u haelwyd, yn hytrach na darparu mesur uniongyrchol o brofiadau neu deilliannau plentyn. Mewn llawer o achosion, gofynnwyd i ymatebwyr hefyd roi sylwadau ar agweddau ar fywyd ysgol nad ydynt yn eu harsylwi'n uniongyrchol, megis yr amgylchedd amser cinio a phrofiadau dysgwyr yn ystod y diwrnod ysgol. Felly dylid dehongli ymatebion yn ofalus, gan eu bod yn adlewyrchu dealltwriaeth rhieni a gofalwyr o'r materion hyn, yn aml yn seiliedig ar wybodaeth a rennir gan eu plentyn yn hytrach nag arsylwi uniongyrchol.

Roedd ymatebion testun agored yn ddewisol ac ni chawsant eu cwblhau gan bob ymatebydd. Felly, efallai na fydd canfyddiadau o ymatebion ysgrifenedig yn adlewyrchu barn yr holl ymatebwyr ac ni fyddant bob amser yn cyd-fynd yn union â chanfyddiadau meintiol. Er enghraifft, efallai y byddai ymatebwyr â barn arbennig o gryf wedi bod yn fwy tebygol o ddarparu sylwadau ysgrifenedig.

3. Proffil yr ymatebwyr

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r rhieni a'r gofalwyr a gwblhaodd yr arolwg. Mae deall proffil yr ymatebwyr yn helpu i roi cyd-destun i'r canfyddiadau a gyflwynir mewn penodau diweddarach. Darperir tablau manwl yn Atodiad 2: Proffil ymatebion yr arolwg.

3.1. Cefndir yr ymatebwyr

Cyflwynwyd ymatebion gan rieni a gofalwyr ar draws 19 o awdurdodau lleol ledled Cymru, er bod lefelau cyfranogiad yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol. Cafwyd y niferoedd mwyaf o ymatebion gan unigolion o Rionda Cynon Taf (347), Caerdydd (280), Casnewydd (240) a Merthyr Tudful (159). Ni chafwyd unrhyw ymatebion wedi'u cwblhau o Sir Gaerfyrddin, Ceredigion nac Abertawe. Fel y nodir ym Mhennod 2, dylid dehongli canfyddiadau felly fel rhai sy'n adlewyrchu barn yr ymatebwyr yn hytrach na phob rhiant a gofalwr yng Nghymru.

3.1.1. Nodweddion yr aelwyd

Roedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr un plentyn yn mynychu ysgol gynradd ar hyn o bryd (66%). Roedd gan tua thri o bob deg (30%) ymatebydd ddau o blant yn yr ysgol gynradd, ac roedd gan ychydig o ymatebwyr dri neu fwy o blant. Pan oedd gan ymatebwyr fwy nag un plentyn yn mynychu ysgol gynradd, gofynnwyd iddynt ateb cwestiynau mewn perthynas â'u plentyn hynaf.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (74%) yn byw mewn aelwydydd â dau riant neu ofalwr, tra oedd tua chwarter (23%) yn aelwydydd rhiant sengl neu ofalwr sengl.

Roedd incwm aelwydydd yn amrywio ar draws yr ymatebwyr. Nododd traean o'r ymatebwyr (33%) fod ganddynt incwm aelwyd blynyddol o dros £50,000 cyn treth a heb gynnwys budd-daliadau, tra oedd cyfran debyg (31%) yn nodi bod ganddynt incwm aelwyd blynyddol o rhwng £20,001 a £50,000. Nododd 18% arall incwm blynyddol o £20,000 neu lai, ac roedd 18% yn nodi bod yn well ganddynt beidio â datgelu eu hincwm.

3.1.2. Nodweddion y dysgwyr

Cafwyd ymatebion mewn perthynas â dysgwyr ar draws pob grŵp blwyddyn ysgol gynradd. Roedd y gynrychiolaeth yn gymharol gyfartal ar draws grwpiau blwyddyn, er bod dwy ran o dair o'r ymatebion (66%) yn ymwneud â dysgwyr ym mlynnyddoedd 3 i 6.

Dyweddodd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr (83%) nad oedd gan eu plentyn ADY, tra oedd 11% yn nodi bod gan eu plentyn ADY. Dywedodd rhai ymatebwyr nad oeddent yn gwybod neu eu bod yn well ganddynt beidio â dweud. Dywedodd bron i naw o bob deg o ymatebwyr (88%) nad oedd gan eu plentyn ofynion deietegol penodol. Ymhlith y rhai a nododd anghenion deietegol, roedd y rhain yn cynnwys alergeddau, deietau llysieuol, gofynion crefyddol ac anghenion meddygol penodol.

3.1.3. Cymhwysra prydau ysgol am ddim sy'n destun prawf modd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd eu plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd (dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim). Dywedodd lleiafrif (29%) fod eu plentyn yn gymwys, tra dywedodd chwech o bob deg (62%) nad oeddent yn gymwys. Dywedodd ychydig o ymatebwyr (8%) nad oeddent yn gwybod.

Mae'r gwahaniaeth hwn yn berthnasol oherwydd efallai fod rhai teuluoedd nad oeddent yn gymwys o'r blaen ar gyfer prydau ysgol am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd wedi profi UPFSM yn wahanol i deuluoedd sydd eisoes yn cael prydau ysgol am ddim cyn cyflwyno'r polisi.

3.1.4. Lleoliad yr ysgolion

Pan nododd ymatebwyr ysgol eu plentyn, cafodd yr ymatebion eu paru â dosbarthiadau gwledig a threfol. Yn seiliedig ar hyn, roedd bron i dri chwarter o'r ymatebion (73%) yn ymwneud â dysgwyr yn mynychu ysgolion trefol a chwarter (25%) yn ymwneud â dysgwyr yn mynychu ysgolion gwledig. Ni roddodd nifer fach o ymatebwyr ddigon o wybodaeth er mwyn gallu dosbarthu eu hymatebion.

3.1.5. Nodweddion o ran cydraddoldeb

Nododd bron pob ymatebydd (90%) eu bod o gefndir ethnig Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig; unrhyw gefndir Gwyn arall). Dywedodd tuag wyth o bob deg (81%) nad oeddent yn ystyried bod ganddynt anabledd, amhariad na chyflwr iechyd hirdymor. Fel sy'n wir am wybodaeth broffil arall, dylid ystyried y nodweddion hyn wrth ddehongli canfyddiadau, gan fod rhai grwpiau wedi'u cynrychioli'n gryfach yn yr arolwg nag eraill.

3.2. Ymwybyddiaeth a chefnogaeth i'r polisi

Dyweddodd bron pob ymatebydd (98%) eu bod yn ymwybodol o'r polisi UPFSM.

Pan ofynnwyd iddynt am eu barn am y polisi, rhoddodd y rhan fwyaf adborth cadarnhaol, gan groesawu darpariaeth pryd ysgol am ddim yn ystod y dydd. Mynegodd llawer o'r ymatebion hyn gefnogaeth gyffredinol, gan ddisgrifio UPFSM fel "syniad da" neu ddefnyddio termau cadarnhaol megis "gwyach", "penigamp" neu "ffantastig".

Roedd cefnogaeth fanylach i'r polisi yn aml yn gysylltiedig â thair thema eang (a archwilir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn):

- tegwch a mynediad cyfartal
- buddion i ddysgwyr
- cymorth ariannol i deuluoedd

Awgrymodd sawl ymatebydd y dylid ehangu prydau ysgol am ddim i ysgolion uwchradd, gan nodi costau uwch a mwy o bwysau ariannol pan fydd dysgwyr yn symud i addysg uwchradd, yn enwedig i deuluoedd sy'n gweithio neu'r rhai sydd â mwy nag un plentyn. Mae hyn yn adleisio canfyddiadau'r adroddiad interim cyntaf, a amlygodd ddiffyg darpariaeth ysgolion uwchradd fel pryder.

“Mae hwn yn gynllun mor dda a hoffwn iddo gael ei ehangu i'r ysgol uwchradd. Mae angen y cynllun hwn ar blant yn yr ysgol uwchradd hefyd.” Ymatebydd yr arolwg

Mynegodd lleiafrif o ymatebwyr farn gymysg neu negyddol am y polisi. Roedd ymatebion cymysg yn aml yn cefnogi egwyddor UPFSM wrth godi pryderon ynghylch cyflawniad neu werth am arian. Y pryderon a adroddwyd amlaf (a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn) oedd pryderon yn ymwneud â'r canlynol:

- ansawdd bwyd
- dewis cyfyngedig ar y fwydlen
- meintiau dognau
- addasrwydd ar gyfer dysgwyr ag anghenion deietegol neu synhwyrdd

Roedd yr ychydig o ymatebwyr â safbwyntiau negyddol yn unig yn aml yn cwestiynu a oedd darpariaeth gyffredinol yn cynrychioli'r defnydd gorau o gyllid cyhoeddus, gan godi pryderon ei bod yn aneffeithlon neu'n ddiangen i deuluoedd a oedd yn gallu talu. Roedd rhai o blaid dychwelyd i brofion modd er mwyn targedu adnoddau'n well neu wella ansawdd prydau bwyd. Cododd nifer lai o ymatebwyr wrthwynebiadau ehangach, gan gynnwys pryderon ynghylch tegwch, camddefnydd a chynaliadwyedd ariannol mewn perthynas ag ysgolion ac awdurdodau lleol.

“Rydw i'n meddwl y gellid gwario arian yn well mewn mannau eraill. Rydw i'n teimlo ers i hyn gael ei gynnig fod safon ac ansawdd y bwyd wedi gostwng.” Ymatebydd yr arolwg

4. Trafodaeth ar y canfyddiadau

Mae Pennod 4 yn archwilio canfyddiadau rhieni a gofalwyr o faint o ddisgyblion sy'n manteisio ar y cynnig o ran prydau ysgol am ddim ac effeithiau posibl y polisi UPFSM sy'n dod i'r amlwg. Mae'n dechrau drwy amlinellu faint o brydau ysgol y mae dysgwyr yn eu bwyta bob wythnos, sut mae hyn wedi newid ers cyflwyno UPFSM, a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau teuluoedd i ddewis pryd ysgol.

Yna mae'r bennod yn archwilio effeithiau canfyddedig y polisi ar ddysgwyr, bywyd ysgol a theuluoedd. Yn gyntaf, mae'n ystyried effeithiau ar iechyd a llesiant dysgwyr, gan gynnwys

mynediad at brydau maethlon, lefelau egni, eu gallu i ganolbwyntio, a deilliannau cymdeithasol ehangach. Yn ail, mae'n archwilio effeithiau sy'n dod i'r amlwg ar fywyd ysgol, megis mwynhad dysgwyr o amser cinio, yr amgylchedd bwyta a'r diwrnod ysgol ehangach. Yn olaf, mae'n archwilio effeithiau ar deuluoedd, yn enwedig mewn perthynas â phwysau ariannol, arbedion o ran amser a newidiadau i fywyd teuluol gartref.

4.1. Pa ffactorau sy'n effeithio ar y nifer sy'n manteisio ar y cynnig UPFSM?

Mae'r is-adran hon yn archwilio faint o ddysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim, sut mae hyn wedi newid ers cyflwyno UPFSM, a'r rhesymau y mae teuluoedd yn eu rhoi dros ddewis neu beidio â dewis prydau ysgol. Mae'n disgrifio patrymau ar adeg yr arolwg a'r newidiadau a adroddwyd ers i'r polisi ddechrau, yn hytrach na mesur newid yn erbyn llinell sylfaen cyn gweithredu'r polisi.

Bwriad UPFSM yw cael gwared ar gost fel rhwystr a gwneud prydau ysgol yn haws i gael mynediad atynt. Fodd bynnag, mae nifer y dysgwyr hefyd yn dibynnu ar ffactorau megis dewis ar y fwydlen, ansawdd bwyd a dewisiadau dysgwyr. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, archwiliwyd faint o ddysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim fel ffactor pwysig wrth ddeall sut mae'r polisi'n gweithio'n ymarferol. Mae hyn oherwydd mai nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig yw'r prif fecanwaith y disgwylir i fuddion ehangach ymddangos o'i herwydd, gan gynnwys effeithiau ar iechyd a llesiant dysgwyr (Pennod 4.2), dysgu ac ymgysylltu (Pennod 4.3) a chyllid teuluoedd (Pennod 4.4). Felly mae deall pwy sy'n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim, pa mor rheolaidd maen nhw'n gwneud hynny, a beth sy'n dylanwadu ar y penderfyniadau hyn yn hanfodol i asesu a yw UPFSM yn creu'r amodau ar gyfer effaith tymor hwy.

Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod UPFSM yn annog lefelau uchel o ddysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol ymhlith ymatebwyr, yn enwedig ar draws dysgwyr iau a theuluoedd ar incwm canolig i uwch. Mae'r canfyddiadau hyn yn fras gyson â data gweinyddol yr adroddwyd amdanynt yn yr adroddiad interim cyntaf, a ddangosodd fod y nifer cyfartalog o unigolion sy'n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim ledled Cymru wedi cynyddu o 67% ym mis Medi 2022 i 69% ym mis Gorffennaf 2024. Er bod y cynnydd hwn yn gymharol gymedrol o ran pwynt canran, mae'n dangos bod y nifer sy'n manteisio ar y cynnig wedi'i gynnal ar lefel uchel ac wedi cynyddu yn ystod y cyfnod o gyflwyno UPFSM.

Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod cyfranogiad yn parhau i fod ychydig yn is ymhlith ymatebwyr o'r aelwydydd mwyaf dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol. Roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn y newidiadau yr adroddwyd amdanynt yn nifer y dysgwyr o'r aelwydydd incwm isaf a'r holl grwpiau incwm eraill a oedd yn cael prydau ysgol. Roedd ymatebwyr o'r aelwydydd incwm isaf yn llai tebygol o adrodd eu bod yn cael mwy o brydau ysgol ac yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn cael llai ohonynt. Mae hyn yn awgrymu, ymhlith ymatebwyr yr arolwg, nad yw'r newidiadau cadarnhaol yr adroddwyd amdanynt yn y nifer sy'n cael prydau ysgol yn dilyn cyflwyno UPFSM wedi'u profi'n gyfartal ar draws pob grŵp incwm.

Serch hynny, mae'r canfyddiadau'n dangos bod y nifer a fanteisiodd ar y cynnig ymhlith dysgwyr o deuluoedd incwm isel yn uwch mewn perthynas â grwpiau blwyddyn iau nag mewn rhai hŷn. Gall hyn ddangos camau cynnar newid mewn patrymau cyfranogiad. Fodd bynnag, gan fod y data hyn yn drawsdiriadol, nid yw'n bosibl pennu a yw hyn yn adlewyrchu effaith y garfan neu wahaniaethau sy'n gysylltiedig ag oedran o ran manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim. Os cynhelir y patrymau hyn wrth i ddysgwyr symud i fyny trwy grwpiau blwyddyn, gallent gyfrannu at nifer uwch o ddysgwyr yn manteisio ar y cynnig dros amser.

Yn fwyaf cyffredin, roedd ymatebwyr yr arolwg yn nodi mai'r prif reswm dros ddewis pryd ysgol oedd ei fod am ddim, tra oedd dewis cyfyngedig ar y fwydlen yn rhwystr yr adroddwyd amdano amlaf o ran pam na fanteisiodd dysgwyr ar y cynnig. Yn gyffredinol, nododd ymatebwyr ar draws grwpiau incwm resymau tebyg dros ddewis neu beidio â dewis prydau ysgol, er bod y rhai o aelwydydd incwm is yn tueddu i roi llai o bwyslais ar y ffactorau hyn yn gyffredinol. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, ymhlith ymatebwyr yr arolwg, fod prydau ysgol yn cael eu hystyried yn gyffredinol fel opsiwn ymarferol a derbyniol yn hytrach nag opsiwn y byddai teuluoedd yn dewis ei osgoi'n weithredol.

Felly mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu nad cost pryd ysgol yw'r unig ffactor sy'n achosi i'r ymatebwyr fanteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim. Nododd rhieni a gofalwyr amrywiaeth o ffactorau eraill, gan gynnwys y dewis ar y fwydlen, blas y bwyd, a pha mor dda yr oedd prydau ysgol yn diwallu anghenion y dysgwyr. Gallai'r canfyddiadau hyn ddangos y gallai cyfleoedd i gynyddu'r nifer sy'n cael y prydau bwyd ymhellach, yn enwedig ymhlith ymatebwyr o gartrefi incwm is, ddibynnu nid yn unig ar argaeledd parhaus prydau bwyd am ddim ond hefyd ar ba mor atyniadol yw'r cynnig prydau bwyd ysgol ei hun. Er enghraifft, gallai ehangu'r dewis ar y fwydlen, cynyddu'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael, a sicrhau bod ciniawau ysgol yn diwallu dewisiadau ac anghenion dysgwyr yn well helpu i annog mwy o ddysgwyr i fanteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim.


4.1.1. Trosolwg o faint o bobl sy'n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim

Mae'r is-adran hon yn archwilio'r hyn a adroddodd rhieni a gofalwyr am batrymau cyfredol o ran manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim a sut mae cyfranogiad wedi newid ers cyflwyno UPFSM. Mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu, ymhlith yr ymatebwyr, bod nifer y dysgwyr sy'n bwyta prydau ysgol wedi cynyddu yn dilyn cyflwyno'r polisi, yn enwedig y rhai o aelwydydd incwm canolig ac uwch. Mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu bod y cynnydd a gofnodwyd mewn nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig wedi bod ychydig yn llai amlwg ymhlith ymatebwyr o aelwydydd sydd dan fwy o anfantais economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, gall y ffaith fod mwy o ddysgwyr iau o aelwydydd incwm isel wedi manteisio ar y cynnig o'i gymharu â dysgwyr hŷn ddangos camau cynnar newid mewn patrymau cyfranogiad.

At ei gilydd, dywedodd bron pob rhiant a gofalwr (92%) fod eu plentyn yn bwyta o leiaf un cinio ysgol yr wythnos ar hyn o bryd. Dywedodd dros hanner y rhieni a'r gofalwyr (58%) fod eu plentyn yn cael cinio ysgol bob dydd, fel y dangosir yn Ffigur 1. Roedd y patrwm hwn yn gyson ar draws y rhan fwyaf o'r bandiau incwm, er bod y nifer a ddewisodd brydau ysgol yn ddyddiol ychydig yn is ymhlith teuluoedd a oedd yn ennill llai na £10,000 (54%). Nododd cyfrannau llai o ymatebwyr fod eu plentyn yn bwyta prydau ysgol rhwng un diwrnod a

phedwar diwrnod yr wythnos (5% i 12%, yn dibynnu ar amllder), tra mai dim ond 8% a nododd nad yw eu plentyn yn bwyta unrhyw brydau ysgol yn ystod wythnos ysgol nodweddiadol.


Ffigur 1: ymatebion i'r cwestiwn “ar gyfartaledd, faint o giniawau ysgol mae eich plentyn yn eu bwyta bob wythnos?” (n = 1,517)



Disgrifiad o ffigur 1: mae'r siart bar hwn yn dangos nifer y ciniawau ysgol y mae plentyn yn eu bwyta bob wythnos, gan gynnwys 58% yn bwyta pum cinio ysgol ac yna 12% yn bwyta pedwar, 9% yn bwyta tri, 6% yn bwyta dau, a 5% yn bwyta un.

Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod y nifer sy'n dewis ciniawau ysgol yn arbennig o uchel ymhlith dysgwyr iau, fel y dangosir yn Ffigur 2. Dywedodd tua thri chwarter o rieni a gofalwyr a ymatebodd sydd â phlentyn yn y dosbarth derbyn (76%), a thros ddwy ran o dair o'r rhai sydd â phlentyn ym Mlwyddyn 1 (69%), fod eu plentyn yn bwyta cinio ysgol bob dydd. O Flwyddyn 2 ymlaen, mae'r nifer a gofnodwyd bob dydd yn dechrau gostwng, gan gyrraedd ei lefel isaf ymhlith ymatebwyr sydd â phlentyn ym Mlwyddyn 4, lle mae llai na hanner y dysgwyr (48%) yn bwyta prydau ysgol bob dydd. Ymhlith yr ymatebwyr â phlentyn ym mlynnyddoedd 5 neu 6, roedd y nifer a gofnodwyd bob dydd yn is nag yn y blynnyddoedd cynnar (55% a 53%, yn y drefn honno), ac roedd gan y grwpiau blwyddyn hyn hefyd y cyfrannau uchaf yn nodi nad yw eu plentyn yn bwyta prydau ysgol o gwbl (10% a 12%, yn y drefn honno). Mae'r patrymau hyn yn gyson â chanfyddiadau'r adroddiad interim cyntaf, a awgrymodd y gallai dysgwyr sydd wedi cael mynediad at y cynnig prydau bwyd cyffredinol ers dechrau yn yr ysgol fod yn fwy tebygol o fanteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim yn rheolaidd.

Ffigur 2: ymatebion i'r cwestiwn “ar gyfartaledd, faint o giniawau ysgol mae eich plentyn yn eu bwyta bob wythnos?” yn ôl grŵp blwyddyn



Disgrifiad o ffigur 2: mae'r siart bar hwn yn dangos nifer y ciniawau ysgol y mae plentyn yn eu bwyta bob wythnos fesul grŵp blwyddyn. Y dosbarth derbyn sydd fwyaf tebygol o gael prydau ysgol bum gwaith yr wythnos (76%) a Blwyddyn 4 sydd lleiaf tebygol (48%).

Ymhlith yr ymatebwyr i'r arolwg, adroddwyd yn gyffredinol fod dysgwyr o aelwydydd incwm is yn cael prydau ysgol ychydig yn llai aml ar y cyfan na'r rhai o aelwydydd incwm canolig ac uwch. Fodd bynnag, roedd y nifer a gofnodwyd yn uwch ymhlith dysgwyr o deuluoedd incwm isel yn y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 nag mewn grwpiau blwyddyn diweddarach. Er enghraifft, ymhlith ymatebwyr o aelwydydd sy'n ennill llai na £10,000, adroddwyd bod 63% o ddysgwyr yn y dosbarth derbyn yn bwyta prydau ysgol bob dydd, o'i gymharu â 44% ym Blwyddyn 6. Gwelwyd patrwm tebyg ymhlith ymatebwyr o aelwydydd yn ennill rhwng £10,001 ac £20,000, yr oedd 81% o'r rhai yn y dosbarth derbyn yn bwyta prydau ysgol bum diwrnod yr wythnos, gan ostwng i tua 54% ym Blwyddyn 6. Dehongliad posibl yw bod y nifer uwch yr adroddir amdano ymhlith dysgwyr iau o aelwydydd incwm is yn adlewyrchu camau cynnar newid mewn patrymau o ran cyfranogiad yn dilyn cyflwyno UPFSM. Fodd bynnag, gan fod y data hyn yn drawsdiriadol ac yn seiliedig ar ymatebion i'r arolwg, nid yw'n bosibl pennu a yw'r gwahaniaethau a welwyd yn adlewyrchu effeithiau y garfan, gwahaniaethau sy'n gysylltiedig ag oedran o ran manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim, neu ffactorau eraill. Os cynhelir y patrymau hyn wrth i ddysgwyr symud ymlaen drwy'r ysgol, gallent gyfrannu at lefelau uwch o ddysgwyr yn cael prydau ysgol ymhlith aelwydydd incwm is dros amser, er na ellir cadarnhau hyn o ddata'r arolwg.


Gofynnwyd i rieni a gofawyr yr oedd eu plentyn eisoes yn yr ysgol gynradd pan ddechreuodd y polisi am newidiadau o ran nifer y weithiau eu bod yn cael prydau ysgol ers cyflwyno UPFSM. Ymhlith y grŵp hwn, dywedodd bron i hanner y rhieni a'r gofawyr (45%) fod eu plentyn bellach yn cael mwy o brydau ysgol bob wythnos, tra oedd tua thraean (35%) yn nodi nad oedd unrhyw newid o ran pa mor aml yr oedd yn cael prydau ysgol, a dywedodd tuag un o bob saith (15%) fod eu plentyn bellach yn cael llai o brydau ysgol.

Mae'r grŵp sy'n nodi dim newid yn cynnwys dysgwyr y mae'r nifer o giniawau ysgol y maent yn eu cael wedi aros yn gyson a'r rhai nad oeddent yn cael mynediad at brydau ysgol cyn y polisi ac sy'n parhau i beidio â gwneud hynny.

Roedd yr ymatebion hefyd yn amrywio yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol. Roedd rhieni a gofalwyr plentyn sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd yn llai tebygol o nodi cynnydd o ran nifer y prydau ysgol maent yn eu cael (25%) o'i gymharu â'r rhai nad oeddent yn gymwys (53%), ac yn fwy tebygol o nodi gostyngiad (26% o'i gymharu â 10%).

Roedd patrwm tebyg yn amlwg ar draws grwpiau incwm aelwydydd. Roedd gwahaniaeth a oedd yn arwyddocaol yn ystadegol yn y newidiadau yr adroddwyd amdanynt yn nifer y dysgwyr oedd yn cael prydau ysgol rhwng dysgwyr o'r aelwydydd incwm isaf (yn ennill llai na £20,000) a phob grŵp incwm arall. Roedd ymatebwyr mewn aelwydydd incwm uwch yn fwy tebygol o ddweud bod eu plentyn bellach yn cael mwy o brydau ysgol na chyn cyflwyno UPFSM (54% o'r rhai sy'n ennill £30,001 i £40,000, 55% o'r rhai sy'n ennill £40,001 i £50,000, 56% o'r rhai sy'n ennill dros £50,000). Mae hyn yn cymharu ag 19% o ymatebwyr o aelwydydd sy'n ennill llai na £10,000, fel y dangosir yn Ffigur Ffigur 3.

Ffigur 3: ymatebion i'r cwestiwn “yn gyffredinol, a yw nifer y ciniawau ysgol y mae eich plentyn yn eu cael bob wythnos wedi newid ers gweithredu'r polisi UPFSM?” yn ôl incwm aelwyd (n = 796)



[Nodyn 1]: Mae canlyniadau ar gyfer rhai grwpiau incwm yn seiliedig ar lai na 100 o ymatebwyr ac felly dylid eu dehongli'n ofalus.

Disgrifiad o ffigur 3: mae'r siart bar hwn yn dangos nifer y ciniawau ysgol y mae plentyn yn eu bwyta bob wythnos ers gweithredu'r polisi fesul band incwm, gan gynyddu mewn categorïau incwm uwch. Cynyddodd y gyfran sy'n dweud bod eu plentyn bellach yn bwyta mwy o brydau ysgol bob wythnos o 19% ymhlith aelwydydd sy'n ennill llai na £10,000 i 56% ymhlith aelwydydd sy'n ennill dros £50,000. Mewn cyferbyniad, roedd ymatebwyr sy'n ennill llai na £10,000 yn fwy tebygol o nodi bod eu plentyn bellach yn bwyta llai o brydau ysgol (40%) na'r rhai mewn grwpiau incwm uwch (6% i 14%).


Y rhai a adroddwyd amlaf eu bod yn cael llai o brydau ysgol oedd yr ymatebwyr o'r categori incwm isaf. Roedd dwy ran o bump (40%) o rieni a gofalwyr o aelwydydd sy'n ennill llai na £10,000 yn nodi bod eu plentyn bellach yn bwyta llai o brydau ysgol bob wythnos. Mae hyn yn cymharu â lleiafrifoedd bach yn unig mewn aelwydydd incwm uwch (6% o'r rhai sy'n ennill £40,001 i £50,000 ac 8% o'r rhai sy'n ennill dros £50,000). Archwilir y rhesymau dros y gwahaniaethau hyn ymhellach ym Mhennod 4.1.3.

4.1.2. Yr hyn sy'n ysgogi dysgwyr i fanteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim

Dangosodd yr is-adran flaenorol fod ymatebwyr o grwpiau incwm is yn llai tebygol o nodi cynnydd yn y nifer a oedd yn cael prydau ysgol ac, mewn rhai achosion, yn fwy tebygol o nodi gostyngiadau. Mae'r is-adran hon yn rhoi cyd-destun pellach i'r canfyddiadau hyn drwy archwilio'r ffactorau a nododd ymatebwyr fel rhai a oedd yn dylanwadu ar benderfyniadau teuluoedd i ddewis pryd ysgol. Er mai cost oedd y rheswm a ddewiswyd amlaf, roedd nifer y dysgwyr a oedd yn cael prydau ysgol hefyd yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ffactorau ymarferol a chymdeithasol, gan gynnwys cyfleustra, dewis o ran bwydlen, dewisiadau bwyd, a chyfleoedd i fwyta gyda ffrindiau. Roedd y pwysigrwydd a roddwyd i'r ffactorau hyn hefyd yn amrywio yn ôl incwm yr aelwyd. Er bod ymatebwyr ar draws grwpiau incwm yn gyffredinol wedi nodi rhesymau tebyg dros ddewis prydau ysgol, roedd y rhai o aelwydydd mwy dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol yn llai tebygol o ddewis llawer o'r ffactorau hyn nag ymatebwyr o aelwydydd incwm canolig ac uwch. Gan y gallai ymatebwyr ddewis sawl rheswm, mae'n ymddangos bod hyn yn adlewyrchu cyfraddau ymateb is ar draws yr opsiynau a restrir yn hytrach na bod aelwydydd incwm is yn nodi gwahanol resymau dros ddewis prydau ysgol.

Ymhlith yr ymatebwyr i'r arolwg, rhieni a gofalwyr a ddewisodd gost a chyfleustra amlaf fel rhesymau dros ddewis prydau ysgol, ac roedd y mwyafrif yn dweud eu bod yn dewis prydau ysgol oherwydd eu bod am ddim (65%) ac oherwydd eu bod yn fwy cyfleus na pharatoi pecyn cinio (60%), fel y dangosir yn Ffigur 4. Nododd yr ymatebwyr hefyd amrywiaeth o ffactorau yn ymwneud â dewisiadau dysgwyr, gan gynnwys yr amrywiaeth o brydau bwyd a gynnigir (43%), a yw eu plentyn yn hoffi blas y bwyd (37%), ac a all eu plentyn fwyta gyda'i ffrindiau yn yr ysgol (36%).

Ffigur 4: ymatebion i'r cwestiwn “pam ydych chi, fel teulu, yn dewis ciniawau ysgol, boed bob dydd neu ar ddiwrnodau dethol?” (n = 1,403)



Disgrifiad o ffigur 4: mae'r siart bar hwn yn dangos y rhesymau pam mae teuluoedd yn dewis ciniawau ysgol. Cost (65%) a chyfleustra (60%) yw'r rhesymau a nodwyd amlaf, ac yna'r dewis o brydau bwyd sydd ar gael (43%), a yw dysgwr yn hoffi blas y bwyd (37%), ac a yw cyd-ddisgyblion yn cael cinio ysgol hefyd (36%).

Er bod yr ymatebwyr yn tueddu i roi rhesymau tebyg ar y cyfan, roedd y gyfran a ddewisodd y rhesymau hyn yn amrywio yn ôl incwm yr aelwyd, fel y dangosir yn Tabl 1. Roedd y gwahaniaethau yn ôl incwm fwyaf amlwg o ran cost a chyfleustra. Roedd ymatebwyr o aelwydydd incwm uwch yn llawer mwy tebygol o ddewis arbedion cost a chyfleustra fel rhesymau dros ddewis prydau ysgol (ar gyfer yr unigolion sy'n ennill dros £50,000: dewisodd 70% gost, tra oedd 75% yn dewis cyfleustra), tra oedd y ffactorau hyn, er eu bod yn dal i fod y rhai pwysicaf, yn cael eu dewis yn llai aml gan deuluoedd sy'n ennill yr incwm isaf (ar gyfer yr unigolion sy'n ennill yn llai na £10,000: dewisodd 51% gost, tra oedd 31% yn dewis cyfleustra). Gwelwyd patrymau tebyg ar draws llawer o'r opsiynau ymateb eraill. Ymddengys fod y patrwm hwn yn cael ei ysgogi gan ymatebwyr incwm is yn dewis llai o'r opsiynau ymateb sydd ar gael yn gyffredinol, yn hytrach nag oherwydd eu bod yn nodi rhesymau amgen dros ddewis prydau ysgol.

Tabl 1: ymatebion i'r cwestiwn "pam ydych chi, fel teulu, yn dewis ciniawau ysgol, boed bob dydd neu ar ddiwrnodau dethol?" yn ôl incwm yr aelwyd (n = 1,157)

Rheswm dros ddewis cinio ysgol	Llai na £10,000 (%)	£10,001 i £20,000 (%)	£20,001 i £30,000 (%)	£30,001 i £40,000 (%)	£40,001 i £50,000 (%)	Uwchlaw £50,000 (%)
Oherwydd ei fod am ddim	51	62	63	66	75	70
Mae'n fwy cyfleus na pharatoi pecyn cinio	31	51	49	54	72	75
Y dewis o brydau bwyd sydd ar gael	32	42	43	51	44	43
Mae fy mhlentyn yn hoffi blas y bwyd	26	28	41	41	40	40
Mae ffrindiau/ cyd-ddisgyblion fy mhlentyn yn cael cinio ysgol	20	28	32	38	42	41
Ansawdd y bwyd sydd ar gael	18	28	28	34	22	19
Mae fy mhlentyn yn meddwl bod y prydau bwyd yn ei lenwi	18	25	23	27	22	24
Mae'r prydau bwyd yn rhoi egni i'm plentyn	15	18	21	28	24	22
Arall – nodwch os gwelwch yn dda	12	10	9	9	14	9
Ddim yn gwybod	4	3	1	1	0	0

Yn ogystal â'r opsiynau a ddarparwyd, dewisodd 11% o'r ymatebwyr 'arall', gan nodi amrywiaeth o resymau ychwanegol dros ddewis prydau ysgol. Thema gyffredin oedd bod yn well gan ddysgwyr pryd o fwyd poeth, wedi'i goginio, yn enwedig yn ystod y misoedd

oerach, ac mae rhieni a gofawyr yn disgrifio hyn fel rhywbeth sy'n llenwi dysgwyr yn fwy ac sy'n fwy addas na phecynnau cinio oer. Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr hefyd at amrywiaeth ddeietegol a chyfleoedd i roi cynnig ar fwydydd newydd, gan nodi bod prydau ysgol yn galluogi dysgwyr i fwyta ystod ehangach o brydau nag y byddent fel arfer yn eu cael gartref, weithiau am eu bod wedi'u dylanwadu gan weld cyfoedion yn bwyta'r un bwydydd.

“Yn ariannol mae'n ein helpu ni'n fawr. Ond hefyd mae fy mhlentyn yn llai ffyslyd yn yr ysgol ym bwyta'r hyn mae ei ffrindiau'n ei fwyta nag y byddai pe byddem yn paratoi bocs cinio ar ei gyfer. Felly mae o fudd i ni yn ariannol ac yn well i'm mhlentyn, a fyddai fel arall yn cael opsiynau cyfyngedig iawn o ran ei becyn cinio, am ei fod yn cael prydau iachus.”
Ymatebydd yr arolwg


“Mae fy mhlentyn yn bwyta deiet llawer mwy amrywiol ac mae'n galonogol i mi fel rhiant ei fod yn cael pryd o fwyd poeth bob dydd, yn enwedig pan fo'r tywydd yn oerach ac yn arw.”
Ymatebydd yr arolwg

4.1.3. Rhwystrau o ran manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim

Mae'r is-adran hon yn archwilio pam mae teuluoedd yn dewis peidio â manteisio ar bryd ysgol er mwyn rhoi cyd-destun pellach i'r patrymau o ran manteisio ar y cynnig a ddisgrifir ym Mhennod 4.1.1. Ymhlith yr ymatebwyr i'r arolwg, y rhesymau a ddewiswyd amlaf dros beidio â dewis prydau ysgol oedd oherwydd nad oedd eu plentyn yn hoffi'r bwyd neu ei fod eisiau mwy o ddewis. Er bod rhesymau tebyg wedi'u nodi ar draws grwpiau incwm, roedd dewis peidio â manteisio ar y cynnig am brydau ysgol yn amlach yn fater o ddewis i aelwydydd incwm uwch, tra oedd yn gysylltiedig yn agosach i aelwydydd incwm is â phryderon ynghylch addasrwydd ac ymarferoldeb.

Dywedodd rhieni a gofawyr a ymatebodd i'r arolwg mai'r prif reswm dros beidio â dewis pryd ysgol oedd y bwyd ei hun. Dewis cyfyngedig ar y fwydlen (61%) a'r ffaith nad yw'r dysgwr yn hoff o flas y bwyd (47%) oedd y rhesymau a ddewiswyd amlaf, fel y dangosir yn Ffigur 5. Dywedodd tua thraean (32%) hefyd ei bod yn well gan eu plentyn ddod â phecyn cinio yn lle.

Ffigur 5: ymatebion i'r cwestiwn “pam ydych chi, fel teulu, yn dewis peidio â chael ciniawau ysgol, boed bob dydd neu ar ddiwrnodau dethol?” (n = 636)



Disgrifiad o ffigur 5: mae'r siart bar hwn yn dangos y rhesymau pam nad yw teuluoedd yn dewis ciniawau ysgol. Dewis (61%) a blas (47%) yw'r rhesymau a nodwyd amlaf, ac yna dewis cael pecyn cinio (32%), ansawdd y bwyd sydd ar gael (21%), a'r ffaith nad yw'r prydau bwyd yn llenwi'r dysgwyr (19%).

Ychydig iawn o ymatebwyr a nododd ffactorau cymdeithasol fel rhwystrau i fwyta prydau ysgol, megis ffrindiau neu gyd-ddisgyblion eu plentyn yn cael pecyn cinio, neu agweddau ar amgylchedd y neuadd fwyta (Pennod 4.3). Dim ond lleiafrif bach a ddywedodd nad oedd eu plentyn eisiau cinio ysgol oherwydd nad oedd eu ffrindiau'n cael un (8%), neu oherwydd natur y neuadd fwyta, megis yr awyrgylch, y sŵn, y ciwiau neu'r ymddygiad (3%). Mae hyn yn cyferbynnu â chanfyddiadau'r adroddiad interim cyntaf, lle roedd rhai dysgwyr, rhieni a gofawyr, a staff ysgolion yn adrodd bod ciwiau hirach, sŵn a lleoliad bwyta mwy gorlaw'n yn rhwystrau o ran dewis cael prydau ysgol. Gallai'r gwahaniaeth adlewyrchu'r nifer gymharol fach o ysgolion lle adroddwyd am y materion hyn yn yr astudiaethau achos, neu'r ffaith y gallai rhieni a gofawyr fod yn llai ymwybodol o brofiadau dydd i ddydd yn y neuadd fwyta.

Cododd rhai o'r ymatebwyr i'r arolwg bryderon hefyd ynghylch ansawdd y bwyd, er bod y rhesymau hyn wedi'u crybwyll gan lai o ymatebwyr yn gyffredinol. Dywedodd tuag un o bob pum unigolyn (21%) nad oeddent yn dewis prydau ysgol oherwydd pryderon ynghylch ansawdd bwyd. Dywedodd cyfran debyg (19%) nad oedd y prydau bwyd yn eu llenwi digon a ddywedodd 6% nad oeddent yn rhoi digon o egni i'w plentyn.

At ei gilydd, crybwyllwyd yr un rhesymau eang dros beidio â dewis prydau ysgol ar draws gwahanol grwpiau o ymatebwyr, gan gynnwys y rhai a ddiffinnir gan incwm aelwyd, cymhwysra ar gyfer prydau ysgol am ddim sy'n destun prawf modd, statws ADY, a lleoliad gwledig neu drefol. Pan ddaeth gwahaniaethau i'r amlwg, roeddent yn fwyaf amlwg yn y graddau yr oedd dysgwyr yn ffafrio pecynnau cinio dros brydau ysgol. Roedd hyn yn llawer

mwy cyffredin ymhlith aelwydydd incwm uwch (42% o'r rhai oedd yn ennill dros £50,000) a'r rhai oedd yn byw mewn ardaloedd trefol (30%), ac yn llai cyffredin ymhlith aelwydydd incwm is (13% o'r rhai oedd yn ennill llai na £10,000) a theuluoedd cefn gwlad (2%). Gall hyn awgrymu, i rai grwpiau, bod dewis i beidio â chael prydau ysgol wedi'i gysylltu'n agos â dewis a'r hyn sy'n well gan ddysgwyr, tra mai prydau ysgol yw'r opsiwn mwy derbyniol neu ymarferol o hyd i grwpiau eraill.

Ar draws pob grŵp o ymatebwyr, bwydlen gyfyngedig oedd y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan rieni a gofalwyr dros beidio â dewis prydau ysgol. Er bod y pryder hwn wedi cael ei grybwyll amlaf gan ymatebwyr o aelwydydd incwm is a chanolig (yn amrywio o 60% i 71% ar gyfer y rhai sy'n ennill hyd at £40,000), roedd yn parhau i fod yn fater pwysig ymhlith ymatebwyr o aelwydydd incwm uwch (55% i 56% ar gyfer aelwydydd sy'n ennill uwchlaw £40,000), gan ddangos bod amrywiaeth bwydlenni yn fater cyffredin yn hytrach nag un sydd wedi'i gyfyngu i grwpiau penodol.

Mewn ymatebion penagored i'r arolwg, nododd rhai rhieni a gofalwyr nad oedd eu plentyn yn fodlon bwyta prydau ysgol ar rai dyddiau oherwydd opsiynau cyfyngedig, bwydlenni ailadroddus, newidiadau i'r fwydlen a oedd wedi cael gwared ar ddewisiadau cyfarwydd yr oeddent yn dibynnu arnynt megis brechdanau, neu oherwydd y cyflwynwyd prydau bwyd nad oedd eu plentyn yn eu hoffi. I rai, arweiniodd newidiadau i fwydlenni a newidiadau canfyddedig i gyflenwyr at ddysgwyr yn bwyta llai o brydau ysgol a rhieni a gofalwyr yn dibynnu mwy ar becynnau cinio i sicrhau bod eu plentyn yn bwyta yn ystod y diwrnod ysgol. Mynegodd eraill bryder hefyd ynghylch meintiau dognau annigonol, yn enwedig i ddysgwyr hŷn, yr oeddent yn adrodd eu bod wedi cael eu gadael yn llwglyd yn ystod y diwrnod ysgol.

“Mae ansawdd y fwydlen, a'r dewis arni, wedi gwaethygu. Roedd fy mhleintyn yn arfer cael prydau ysgol tua theirgwaith yr wythnos. Nawr mae'n cael pryd ysgol unwaith bob tair wythnos.” Ymatebydd yr arolwg

Roedd ymatebion penagored hefyd yn tynnu sylw at bryderon gan rai ymatebwyr ynghylch hygyrchedd ac anghenion deietegol. Tynnwyd sylw at y pryderon hyn gan rai rhieni a gofalwyr plentyn ag alergeddau, anoddefiadau neu ddeietau wedi'u cyfyngu'n feddygol, a oedd yn teimlo nad oedd yr opsiynau sydd ar gael yn diwallu anghenion eu plentyn yn ddigonol (gweler Pennod 4.3.1.5).

Fel yr archwiliwyd ym Mhennod 4.1.1, roedd ymatebwyr o aelwydydd yn y band incwm isaf (yn ennill llai na £10,000 y flwyddyn) yn fwy tebygol o nodi nad oedd eu plentyn yn bwyta prydau ysgol, yn ogystal â chynnydd llai a gostyngiadau mwy yn y nifer sy'n cael prydau ysgol ers cyflwyno UPFSM. Mae dadansoddiad o ymatebion penagored yr arolwg gan y rhieni a'r gofalwyr hyn yn awgrymu bod y rhesymau a roddwyd dros beidio â manteisio ar y cynnig am brydau ysgol yn fras debyg i'r rhai yr adroddwyd amdanynt gan rieni a gofalwyr yn gyffredinol. Y rhesymau a roddwyd amlaf oedd nad oedd eu plentyn yn hoffi'r prydau bwyd, yn aml oherwydd ei fod yn “ffyslyd” o ran yr hyn y mae'n ei fwyta, bod yn well ganddo fwydydd cyfarwydd, neu fod ganddo anghenion synhwyrdd. Roedd pryderon eraill yn cynnwys dewis cyfyngedig, bwydlenni ailadroddus, a chanfyddiadau bod ansawdd y bwyd yn wael.

“Mae fy mhleintyn yn cael trafferth gyda'r prydau bwyd. Arferai fod opsiwn i gael wrap/brechdan neu basta plaen, ond ers i'r fwydlen newid, dydy hi ddim yn hoffi'r opsiynau

newydd. Yn anffodus, dydw i ddim mewn sefyllfa i ddarparu pecynnau cinio bob dydd ac rwy'n gwybod nawr ei bod hi weithiau'n mynd drwy'r dydd yn bwyta ychydig iawn.”
Ymatebydd yr arolwg


4.2. Pa effaith mae'r polisi wedi'i chael ar iechyd a llesiant plant?

Mae'r is-adran hon yn archwilio barn rhieni a gofalwyr ymhlith yr ymatebwyr ar iechyd ac ansawdd maethol prydau ysgol, yn ogystal ag effaith y polisi UPFSM ar iechyd a llesiant eu plentyn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y bwyd yn iach ac yn faethlon ac yn ystyried bod UPFSM yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant eu plentyn, ac mae buddion yn cael eu hadrodd amdanynt ar draws pob grŵp incwm ac ychydig o dystiolaeth sydd o effeithiau negyddol.

4.2.1. Iechyd ac ansawdd maethol prydau ysgol

Mae ymatebion yr arolwg yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ystyried prydau ysgol yn iach ac yn faethlon. Roedd bron i naw o bob deg (87%) yn eu graddio'n gadarnhaol, gan gynnwys mwy nag un o bob pedwar (27%) a'u disgrifiodd fel “iach iawn” a chwech o bob deg (60%) a'u disgrifiodd fel “eithaf iach”. Dim ond 7% o'r ymatebwyr oedd yn teimlo nad oedd prydau ysgol yn iach.

Ffigur 6: ymatebion i'r cwestiwn “yn gyffredinol, sut fydddech chi'n graddio'r ciniawau ysgol sydd ar gael yn ysgol eich plentyn o ran iechyd a maeth?” (n = 1,517)



Disgrifiad o ffigur 6: mae'r siart bar hwn yn dangos y byddai'r rhan fwyaf o rieni neu ofalwyr a ymatebodd i'r arolwg yn graddio iechyd a maeth ciniawau ysgol fel 'Eithaf iach a maethlon' (60%), 'Iach a maethlon iawn' (27%), 'Ddim yn iach na maethlon' (7%) a 'Ddim yn gwybod / dim barn' (6%).


Roedd canfyddiadau cadarnhaol o iechyd ac ansawdd maethol prydaus ysgol yn fwyaf amlwg ymhlith ymatebwyr oedd yn gymwys i gael prydaus ysgol am ddim yn seiliedig ar incwm ac yn destun prawf modd a'r rhai ar incwm is, a oedd yn fwy tebygol o ddisgrifio prydaus ysgol fel rhai "iach iawn". Er enghraifft, dewisodd 35% o ymatebwyr sy'n gymwys i gael prydaus bwyd am ddim yr ymateb hwn, o'i gymharu â 23% o ymatebwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydaus bwyd am ddim, a 40% ymhlith aelwydydd sy'n ennill llai na £10,000. Roedd ymatebwyr o aelwydydd incwm uwch yn llai tebygol o ddisgrifio prydaus ysgol fel rhai "iach iawn", er nad oedd hyn yn adlewyrchu barn fwy negyddol yn gyffredinol. Yn hytrach, roeddent yn fwy tebygol o raddio prydaus ysgol fel rhai "eithaf iach". Mewn aelwydydd sy'n ennill dros £50,000, disgrifiodd 16% brydaus bwyd fel rhai "iach iawn", tra oedd 69% yn eu graddio fel rhai "eithaf iach". Mae hyn yn awgrymu gwahaniaethau yng nghryfder canfyddiadau cadarnhaol yn hytrach na rhaniad amlwg mewn safbwyntiau ynghylch iechyd ac ansawdd maethol prydaus ysgol.

Ar draws pob grŵp ymatebwyr, cymharol ychydig o ymatebwyr oedd yn ystyried prydaus ysgol yn afiach. Pan ymddangosodd gwahaniaethau, roeddent yn gymedrol, ac roedd ymatebwyr o aelwydydd sy'n ennill rhwng £10,001 a £20,000 a £30,001 a £40,000 yn lleiaf tebygol o raddio prydaus ysgol fel rhai nad ydynt yn iach (2% a 3%, yn y drefn honno). Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymddiried mewn prydaus ysgol fel opsiwn iach a maethlon i'w plentyn.

4.2.2. Canfyddiadau ar effaith UPFSM ar iechyd a llesiant plant

Pan ofynnwyd iddynt raddio effaith UPFSM ar iechyd a llesiant eu plentyn, adroddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr effaith gadarnhaol, fel y dangosir yn Ffigur 7. Nododd mwyafrif (62%) fod y polisi wedi cael effaith gadarnhaol, gan gynnwys chwarter (25%) a deimlai ei fod wedi cael "effaith gadarnhaol sylweddol". Dywedodd ychydig dros chwarter (26%) nad oedd UPFSM wedi gwneud unrhyw wahaniaeth, tra mai dim ond ychydig a nododd unrhyw effaith negyddol (5% i gyd).

Ffigur 7: ymatebion i'r cwestiwn “pa effeithiau, os o gwbl, ydych chi'n credu bod cyflwyno'r polisi UPFSM wedi'u cael ar iechyd a llesiant eich plentyn?” (n = 1,517)



Disgrifiad o ffigur 7: mae'r siart bar hwn yn dangos bod effaith y polisi ar iechyd a llesiant plant wedi'i hystyried yn gyffredinol fel un gadarnhaol, gan gynnwys 'Effaith gadarnhaol sylweddol' (25%) a 'Rhywfaint o effaith gadarnhaol' (37%), neu fel polisi nad oedd yn cael unrhyw wahaniaeth (26%); roedd yr ymatebion negyddol yn llawer is o ran canran, sef 'Rhywfaint o effaith gadarnhaol' (4%) ac 'Effaith negyddol sylweddol' (1%).

Ymhelaethodd llawer o ymatebwyr ar eu hymatebion trwy ymatebion testun agored, gan ddisgrifio ystod o fuddion canfyddedig sy'n gysylltiedig ag UPFSM. Teimlai rhai fod dod i gysylltiad â phrydau ysgol wedi annog eu plentyn i roi cynnig ar fwydydd newydd yn yr ysgol, gan gynnwys bwydydd nad ydynt fel arfer yn cael eu bwyta gartref, a'u bod yn aml yn cael eu dylanwadu arnynt trwy weld cyfoedion yn bwyta'r un prydau bwyd (gweler Pennod 4.3.2).

Roedd ymatebion penagored hefyd yn tynnu sylw at fuddion cymdeithasol a chymunedol canfyddedig. Disgrifiodd rhai rhieni a gofalwyr werth amseroedd bwyd a rennir a phlant yn bwyta ochr yn ochr â'u cyfoedion, gan gefnogi rhyngweithio cymdeithasol a helpu plant i deimlo eu bod yn perthyn. Pwysleisiodd eraill bwysigrwydd natur gyffredinol y cynnig, gan nodi bod pob dysgwr yn cael yr un prydau bwyd waeth beth fo incwm yr aelwyd. Roedd ymatebwyr yn teimlo'n gyffredin fod hyn yn helpu i leihau stigma a lleihau'r risg y tynnir sylw at ddysgwyr oherwydd amgylchiadau ariannol eu teulu.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw hefyd at werth mynediad at bryd bwyd poeth, cytbwys yn ystod y diwrnod ysgol, a theimlai rhai rhieni a gofalwyr fod hyn yn cefnogi lefelau egni eu plentyn, ei allu i ganolbwyntio, a'i barodrwydd i ddysgu yn y prynhawn.

“Bydd yn rhoi cynnig ar bethau yn yr ysgol y byddai fel arfer yn ffyslyd o ran rhoi cynnig arnynt gartref. Bydd hefyd yn rhoi cynnig ar bethau mae ei ffrindiau'n eu bwyta.” Ymatebydd yr arolwg

“Nid yw’n tynnu sylw at y rhai sydd ar y cynllun prydau ysgol am ddim.” Ymatebydd yr arolwg


Y sylwadau negyddol a godwyd amlaf o ymatebion penagored oedd yn ymwneud â maint dognau. Mynegodd rhai rhieni a gofawyr bryder nad oedd y dognau’n ddigonol, tra oedd eraill yn cysylltu pryderon ynghylch maint y dognau â blas neu ansawdd y bwyd, gan adrodd bod y ffactorau hyn gyda’i gilydd yn golygu nad oedd eu plentyn yn bwyta digon yn ystod y diwrnod ysgol.

Dangosodd yr ymatebion hefyd fod y safbwyntiau'n fwy cymysg o ran ansawdd bwyd a chydbwysedd maethol. Roedd llawer o ymatebwyr yn ystyried ansawdd neu baratoad prydau bwyd yn negyddol, gan ddisgrifio bwyd fel oer, diflas, annymunol neu wedi'i goginio'n wael. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at ddysgwyr yn osgoi prydau ysgol yn gyfan gwbl neu'n bwyta rhy ychydig i aros yn llawn drwy gydol y dydd oherwydd nad oeddent yn hoffi'r blas, y gwead, neu'r ffordd y mae'r bwyd yn cael ei gyflwyno. Mynegodd eraill bryderon ynghylch cynnwys maethol prydau bwyd, gan gynnwys dibyniaeth ganfyddedig ar fwydydd wedi'u prosesu'n ormodol neu gynhwysion cost isel. Mewn cyferbyniad, teimlai nifer fach o ymatebwyr fod bwydlenni'n canolbwyntio gormod ar ieched, gan arwain at brydau bwyd nad oeddent yn apelio nac yn addas i blant, a arweiniodd unwaith eto at ddysgwyr yn bwyta ychydig iawn ac yn mynd yn llwglyd. I'w nodi, mae barn ar fwydydd wedi'u prosesu'n ormodol yn amrywio'n fawr ar draws y boblogaeth, ac nid oes un diffiniad cytûn na dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sy'n cyfrif fel bwyd wedi'i brosesu'n ormodol. Mae cyfeiriadau at fwydydd wedi'u prosesu'n ormodol yn y canfyddiadau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau rhieni a gofawyr yn hytrach nag asesiad gwrthrychol o ansawdd maethol prydau ysgol.

“Mae gweld cymaint o gyd-ddisgyblion yn bwyta bwyd nad yw’n iach bob dydd wedi ei gwneud hi’n anoddach annog bwyta’n iach gartref. Mae hi nawr yn disgwyl pwdin a sgloadion yn rheolaidd, ffa pob, sawsiau wedi'u prosesu'n helaeth ac ati ac mae’n anoddach ei chael hi i fwyta'r bwyd iachach.” Ymatebydd yr arolwg

Roedd perthynas a oedd yn arwyddocaol yn ystadegol rhwng incwm aelwydydd a chanfyddiadau'r ymatebwyr o effaith UPFSM ar ieched a llesiant eu plentyn, er bod y gwahaniaethau rhwng grwpiau incwm yn gymharol gymedrol, fel y dangosir yn Ffigur 8. Adroddwyd am effeithiau cadarnhaol ar draws pob grŵp incwm, ac roedd y canfyddiadau mwyaf cadarnhaol ymhlith ymatebwyr o aelwydydd incwm canolig (y rhai'n ennill rhwng £20,001 a £30,000 a £30,001 a £40,000), tra oedd ymatebwyr o aelwydydd incwm uwch (yn ennill uwchlaw £50,000) yn fwy tebygol o nodi dim newid o'i gymharu â grwpiau incwm eraill. Adroddodd ymatebwyr o aelwydydd incwm is (yn ennill islaw £10,000 a rhwng £10,001 a £20,000) effeithiau cadarnhaol i raddau helaeth hefyd, er eu bod ychydig yn fwy tebygol na grwpiau eraill o adrodd am brofiadau negyddol neu i nodi eu bod yn ansicr.

Ffigur 8: ymatebion i'r cwestiwn “pa effeithiau, os o gwbl, ydych chi'n credu y mae cyflwyno'r polisi UPFSM wedi'u cael ar ieched a llesiant eich plentyn?” yn ôl incwm yr aelwyd



Disgrifiad o ffigur 8: siart bar yn dangos bod cyflwyno'r polisi wedi cael effeithiau cadarnhaol ar iechedd a llesiant plant, wedi'i gyflwyno fesul grŵp incwm. Dywedodd rhwng 18% a 33% o rieni a gofalmwr ar draws grwpiau incwm fod effaith sylweddol wedi bod a dywedodd rhwng 28% a 44% fod rhywfaint o effaith gadarnhaol wedi bod.

Ynghyd â'r canfyddiadau ynghylch y nifer sy'n cael prydau ysgol, mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod ymatebwyr a nododd eu bod yn cael prydau ysgol yn fwy cyson hefyd yn fwy tebygol o ganfod buddion o ran iechedd a llesiant eu plentyn. Fodd bynnag, gall cyfranogiad is a gostyngiad mewn nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig o brydau ysgol am ddim ymhlith rhai aelwydydd incwm is leihau'r cyfleoedd i wireddu'r buddion canfyddedig hyn. Mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu bod ymatebwyr yn fwy tebygol o ganfod effeithiau cadarnhaol pan sylwir bod UPFSM yn gwella mynediad at brydau bwyd iach a maethlon, tra oedd yr effeithiau canfyddedig yn tueddu i fod yn fwy cyfyngedig pan oedd darpariaeth debyg eisoes ar gael cyn cyflwyno'r polisi.

4.3. Beth yw'r effeithiau ar fywyd ysgol sy'n dod i'r amlwg o'r polisi?

Mae'r is-adran hon yn archwilio effeithiau canfyddedig y polisi ar fywyd ysgol o safbwynt rhieni a gofalmwr. At ei gilydd, mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu bod rhieni a gofalmwr yn canfod bod gan UPFSM effaith gymedrol ond cadarnhaol ar y cyfan ar fywyd ysgol. Mae ymatebion i'r arolwg yn dangos bod rhieni a gofalmwr yn ystyried bod y polisi'n cyfrannu'n gadarnhaol at rai agweddau ar brofiad ysgol dysgwyr, er bod ei effeithiau ehangach ar drefniadaeth ac amgylchedd amser cinio yn ymddangos yn llai gweladwy i rieni a gofalmwr ac mae'n bosib bod safbwyntiau gwahanol ar hyn ar draws grwpiau ymatebwyr.

Pan adroddodd ymatebwyr am newidiadau o ran mwynhad eu plentyn o amser cinio ers cyflwyno UPFSM, adroddwyd am newidiadau cadarnhaol yn amlach na newidiadau

negyddol. Fodd bynnag, roedd ymwybyddiaeth o newidiadau i agweddau eraill ar y profiad amser cinio, megis lefelau sŵn, ciwio, staffio a threfniadaeth amser cinio, yn fwy cyfyngedig. Nododd llawer o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oedd yr agweddau hyn wedi newid ers cyflwyno'r polisi. Pan adroddwyd am effeithiau, roedd yr ymatebwyr yn tueddu i feddwl bod y sefyllfa'n gwella yn hytrach na gwaethygu. Fodd bynnag, roedd profiadau'n amrywio rhwng grwpiau. Roedd rhieni a gofalwyr plentyn sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd, a'r rhai o aelwydydd incwm is, yn fwy tebygol o adrodd am newidiadau cadarnhaol, tra oedd ymatebwyr y mae eu plentyn ag ADY yn llai tebygol o ganfod buddion. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau'r adroddiad interim cyntaf, a awgrymodd y gallai cynnydd yn y nifer sy'n bwyta prydau ysgol, mewn rhai lleoliadau, fod wedi cyfrannu at giwiau hirach, dysgwyr yn bwyta ar frys a lleoliadau bwyta mwy gorlawn. Nodwyd y ffactorau hyn fel rhwystrau posibl i rai dysgwyr o ran manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim, yn enwedig y rhai ag ADY a allai fod yn fwy sensitif i amgylcheddau prysur neu rai sy'n cyfoethog o ran y synhwyrâu.

4.3.1. Effaith ar y profiad o amser cinio

Mae'r is-adran hon yn archwilio canfyddiadau rhieni a gofalwyr ynghylch a yw eu plentyn yn mwynhau amser cinio fwy neu lai o ganlyniad i'r polisi, yn ogystal â'u hymatebion i'r cwestiwn o ran a yw eu plentyn wedi sôn am unrhyw newidiadau i'w profiad amser cinio ers cyflwyno UPFSM, gan gynnwys sŵn yn yr ystafell fwyta, amgylchedd yr ystafell fwyta, ciwiau cinio, amser sydd ar gael ar gyfer cinio, a lefelau staffio yn ystod cinio. Ar y cyfan, er bod ymatebwyr wedi dweud yn gyffredinol fod eu plentyn bellach yn mwynhau amser cinio yn fwy, dywedodd llawer o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oedd agweddau ar yr amgylchedd cinio, megis lefelau sŵn, ciwiau, lefelau staffio a sbwriel, wedi newid ers cyflwyno'r polisi. Pan fynegodd ymatebwyr farn, roeddent yn gymysg ar y cyfan.

4.3.1.1. Mwynhad o amser cinio

Mae ymatebion yr arolwg yn awgrymu bod ymatebwyr yn fwy tebygol o ganfod gwelliannau o ran faint y mae eu plentyn yn mwynhau amser cinio yn dilyn cyflwyno UPFSM yn hytrach na dirywiad. Ar y cyfan, roedd 43% o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno (26%) neu'n cytuno'n gryf (17%) bod eu plentyn yn mwynhau amser cinio yn fwy o ganlyniad i'r polisi, tra mai dim ond 9% oedd yn anghytuno a 7% yn anghytuno'n gryf. Ychydig o amrywiad oedd yn ôl statws dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, er y gwelwyd rhai gwahaniaethau yn ôl statws ADY, lleoliad yr ysgol ac incwm yr aelwyd.

Roedd ymatebwyr y mae gan eu plentyn ADY ychydig yn llai tebygol o nodi mwy o fwynhad (13% yn cytuno'n gryf, o'i gymharu ag 17% ymhlith ymatebwyr nad oes gan eu plentyn ADY) ac ychydig yn fwy tebygol o anghytuno'n gryf (10%, o'i gymharu â 7%). Yn yr un modd, roedd ymatebwyr o aelwydydd sy'n ennill llai na £10,000 yn fwy tebygol o anghytuno'n gryf bod mwynhad wedi gwella (15%) na'r rhai mewn bandiau incwm uwch (4% i 8%).

Roedd amrywiad yn ôl lleoliad yr ysgol yn llai clir. Er bod ymatebwyr o ardaloedd gwledig ychydig yn fwy tebygol o gytuno'n gryf bod mwynhad amser cinio wedi gwella (21%, o'i gymharu ag 16% mewn ysgolion trefol), roedd lefelau cyffredinol yr anghytundeb yn debyg, yn fras, ar draws lleoliadau gwledig a threfol.

4.3.1.2. Newidiadau i lefelau sŵn yn yr ystafell fwyta

Mae ymatebion yr arolwg yn awgrymu bod cymharol ychydig o ymatebwyr yn cofio eu plentyn yn sôn am newidiadau yn lefelau sŵn yr ystafell fwyta yn dilyn cyflwyno UPFSM, fel y dangosir yn Ffigur 9. Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr (54%) nad oeddent yn gwybod a oedd lefelau sŵn yn yr ystafell fwyta wedi newid ers cyflwyno'r polisi, tra oedd tua thraean (31%) yn nodi nad oedd eu plentyn wedi sôn am unrhyw newid. Ychydig iawn o ymatebwyr a nododd fod y sefyllfa wedi gwella (7%, gan gyfuno ymatebion 'llawer gwell' ac 'ychydig yn well') neu a nododd ei bod wedi gwaethgu (7%, gan gyfuno ymatebion 'llawer gwaeth' ac 'ychydig yn waeth').

Gwelwyd rhai gwahaniaethau bach ar draws grwpiau. Roedd ymatebwyr y mae gan eu plentyn ADY ychydig yn fwy tebygol o ddweud bod eu plentyn wedi sôn am lefelau sŵn yn gwaethgu ers cyflwyno UPFSM. Yn benodol, nododd 7% fod eu plentyn wedi sôn bod lefelau sŵn yn 'llawer gwaeth', o'i gymharu â 2% o ymatebwyr nad oes gan eu plentyn ADY. Er ei fod yn arwyddocaol yn ystadegol, roedd cryfder y cysylltiad yn fach, gan ddangos dim ond gwahaniaethau cymedrol rhwng grwpiau.


Roedd ymatebwyr y mae eu plentyn yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd ychydig yn fwy tebygol na'r rhai nad yw eu plentyn yn gymwys o adrodd bod eu plentyn wedi sôn am welliannau o ran lefelau sŵn. Yn benodol, dywedodd 5% fod eu plentyn wedi sôn bod sŵn wedi dod yn "llawer gwell" (o'i gymharu â 2% o ymatebwyr nad oeddent yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim), ac adroddodd 6% "ychydig yn well" (o'i gymharu â 3%). Roedd ymatebwyr nad yw eu plentyn yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd yn fwy tebygol o ddewis "ddim yn gwybod" (57% o'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim, 47% o'r rhai sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim). Ychydig o wahaniaeth oedd rhwng y ddau grŵp hyn o ran anghytuno â'r datganiad.

Roedd ymatebwyr o aelwydydd sy'n ennill llai na £10,000 a rhwng £20,001 a £30,000 yn fwy tebygol na'r rhai mewn grwpiau incwm eraill o ddweud bod eu plentyn wedi sôn am newidiadau mewn lefelau sŵn ers cyflwyno UPFSM, gan gynnwys gwelliannau a dirywiadau, gan awgrymu safbwyntiau mwy hollt o fewn y grwpiau hyn.

4.3.1.3. Effeithiau ehangach ar yr ystafell fwyta

Roedd patrwm tebyg yn amlwg pan ofynnwyd i ymatebwyr a oedd eu plentyn wedi sôn am newidiadau i amgylchedd yr ystafell fwyta yn fwy cyffredinol. Dewisodd tua hanner (49%) o'r ymatebwyr "ddim yn gwybod", a dywedodd dros draean (34%) nad oedd eu plentyn wedi sôn am unrhyw newid, fel y dangosir yn Ffigur 9. Ymhlith yr ymatebwyr y soniodd eu plentyn am newid, roedd mwy o ymatebwyr yn canfod gwelliant (11%) yn hytrach na bod pethau wedi gwaethgu (5%). Roedd y gwahaniaethau yn ôl ADY a statws dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn fach. Roedd ymatebwyr y mae eu plentyn yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd a'r rhai nad oes gan eu plentyn ADY ychydig yn fwy tebygol o ddweud bod eu plentyn wedi sôn am welliannau i amgylchedd yr ystafell fwyta ers cyflwyno UPFSM.

Ffigur 9: ymatebion i'r cwestiwn "a yw eich plentyn wedi sôn am unrhyw newidiadau i'r canlynol ers cyflwyno UPFSM" (n = 1,517)



Disgrifiad o ffigur 9: siart bar yn dangos ymatebion i newidiadau yn y profiad amser cinio a grybwyllwyd gan blant i rieni a gofalwyr. Gwnaeth y rhan fwyaf adrodd bod y profiad ‘Yr un peth’ neu ‘Ddim yn gwybod’ mewn perthynas â sŵn yn yr ystafell fwyta (31% yr un peth; 54% ddim yn gwybod); mewn perthynas ag amgylchedd yr ystafell fwyta, nododd 34% ei fod yr un peth ac nid oedd 49% yn gwybod; mewn perthynas â ciwiau amser cinio, nododd 27% eu bod yr un peth ac nid oedd 52% yn gwybod; o ran yr amser sydd ar gael ar gyfer cinio, nododd 31% ei fod yr un peth ac nid oedd 46% yn gwybod; ac mewn perthynas â lefelau staffio, nododd 24% eu bod yr un peth tra oedd 64% ddim yn gwybod.

Gwelwyd patrwm tebyg ar gyfer ciwiau cinio a'u hyd. Nid oedd dros hanner yr ymatebwyr (52%) yn gwybod a oedd eu plentyn wedi sôn am unrhyw newidiadau i giwiau cinio ers cyflwyno UPFSM, tra dywedodd 27% nad oedd eu plentyn wedi sôn am unrhyw newid. Ymhlith yr ymatebwyr yr oedd eu plentyn wedi sôn am newid, adroddodd ychydig mwy fod ciwiau wedi gwaethgu yn hytrach nag wedi gwella. Gwelwyd patrwm tebyg ar gyfer hyd cinio. Roedd 46% yn dweud nad oeddent yn gwybod a oedd eu plentyn wedi sôn am unrhyw newidiadau a 31% yn nodi nad oedd eu plentyn wedi sôn am unrhyw newid. Ymhlith yr ymatebwyr yr oedd eu plentyn wedi sôn am newid, adroddwyd am newidiadau negyddol ychydig yn amlach na newidiadau cadarnhaol (15% o'i gymharu â 9%), a dim ond amrywiad bach sydd ar draws grwpiau incwm.

Dilynodd ymatebion yn ymwneud â lefelau staffio amser cinio batrwm tebyg. Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (64%) yn gwybod a oedd eu plentyn wedi sôn am unrhyw newidiadau i lefelau staffio, tra oedd 24% yn nodi nad oedd eu plentyn wedi sôn am unrhyw newid. Mae'r canfyddiad hwn yn gyson â thystiolaeth o'r adroddiad interim cyntaf, a ganfu fod ysgolion wedi addasu oriau a rolau staff presennol i sicrhau digon o oruchwyliaeth yn ystod amser cinio. Roedd hyn yn cynnwys mesurau dros dro, megis ailneilltuo cynorthwyyr addysgu neu staff gweinyddol i'r ffreutur, a recriwtio mwy o oruchwylwyr amser cinio parhaol. Gallai'r gyfran uchel o ymatebwyr nad oeddent yn ymwybodol o'r newidiadau hyn i lefelau staffio awgrymu nad oedd yr addasiadau hyn yn weladwy iawn i ddysgwyr a'u

teuluoedd. Ymhlith yr ymatebwyr yr oedd eu plentyn wedi sôn am newid, roedd adroddiadau am welliannau yn fwy cyffredin ymhlith aelwydydd incwm is ac yn gostwng wrth i incwm yr aelwyd gynyddu, o 16% ymhlith aelwydydd sy'n ennill llai na £10,000 i 1% ymhlith y rhai sy'n ennill uwchlaw £50,000.

4.3.1.4. Canfyddiadau o newidiadau i'r cynnig prydau ysgol

At ei gilydd, mae ymatebion i'r arolwg yn awgrymu bod rhieni a gofalwyr yn gyffredinol o'r farn nad yw'r cynnig prydau ysgol wedi newid neu ei fod wedi gwella ychydig yn dilyn cyflwyno UPFSM. Er nad oedd llawer o ymatebwyr wedi canfod newidiadau sylweddol i'r cynnig prydau ysgol, nododd rhai welliannau yn y dewis o fwyd, ansawdd a blas (gweler Pennod 4.2.1 am safbwyntiau ar iechyd ac ansawdd maethol prydau bwyd). Fodd bynnag, nid oedd canfyddiadau'n gyson ar draws pob grŵp o ymatebwyr. Roedd aelwydydd yn ennill uwchlaw £50,000 ychydig yn fwy tebygol na'r rhai mewn grwpiau incwm eraill o adrodd bod y cynnig prydau ysgol wedi gwaethgu ers cyflwyno UPFSM, yn enwedig o ran ansawdd a blas. Archwilir goblygiadau'r canfyddiadau hyn o ran nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol ym Mhennod 4.1.

Roedd yr ymatebion yn ymwneud â detholiad, ansawdd a blas y bwyd yn gymysg ac yn awgrymu mai dim ond newid canfyddedig cyfyngedig a fu ers cyflwyno'r polisi UPFSM. Er enghraifft, dywedodd ychydig mwy o ymatebwyr fod eu plentyn wedi sôn bod dewisiadau'r prydau bwyd wedi gwella ychydig neu lawer (28%) yn hytrach na pheidio â newid (22%) neu waethgu ychydig neu lawer (22%). O ran ansawdd a blas bwyd, yr ymateb mwyaf cyffredin oedd nad oedd yr ymatebwyr yn gwybod a oedd eu plentyn wedi sôn am unrhyw newid (26% a 29% yn y drefn honno). Yn y ddau achos, pan soniodd yr ymatebwyr fod eu plentyn wedi sylwi ar newid, roedd mwy o'r farn bod y sefyllfa wedi gwella yn hytrach na gwaethgu. Yn benodol, dywedodd 25% o'r ymatebwyr fod eu plentyn wedi sôn bod ansawdd a blas bwyd wedi gwella ychydig neu lawer, tra nododd 19% fod yr ansawdd wedi gwaethgu a 18% fod y blas wedi gwaethgu. Roedd y barnau hyn yn gyson ar draws y rhan fwyaf o grwpiau o ymatebwyr, er bod rhywfaint o amrywiad yn amlwg yn ôl incwm aelwydydd. Ymatebwyr o aelwydydd sy'n ennill llai na £10,000 oedd yr unig grŵp incwm a oedd yn fwy tebygol o adrodd bod eu plentyn wedi sôn bod y dewis o fwyd wedi gwaethgu yn hytrach na gwella. Yn benodol, dywedodd 34% fod eu plentyn wedi sôn bod y dewis bwyd wedi gwaethgu, o'i gymharu â 30% a deimlai ei fod wedi gwella.

Mynegodd ymatebwyr o aelwydydd sy'n ennill dros £50,000 farn ychydig yn llai cadarnhaol am eu plentyn o ran ansawdd a blas bwyd hefyd. O ran ansawdd bwyd, dywedodd 19% fod eu plentyn wedi sôn ei fod wedi gwaethgu ers cyflwyno UPFSM, o'i gymharu â 15% a deimlai ei fod wedi gwella, sy'n groes i'r canlyniadau cyffredinol, sy'n dangos cefnogaeth gref i'r datganiad ei fod wedi gwella yn hytrach na gwaethgu. O ran blas, roedd canfyddiadau ychydig yn fwy cadarnhaol na negyddol, er bod y gwahaniaeth yn llai nag mewn grwpiau incwm eraill. Er bod 16% wedi dweud bod eu plentyn wedi sôn bod y blas wedi gwella, dywedodd 15% fod eu plentyn wedi sôn ei fod wedi gwaethgu. Mewn cymhariaeth, roedd y gwelliannau yr adroddwyd amdano o ran blas yn amrywio o 23% i 37% ar draws grwpiau incwm eraill.

4.3.1.5. Arlwyro ar gyfer anghenion deietegol penodol

Mae ymatebion yr arolwg yn awgrymu bod llawer o ymatebwyr yn ansicr a oedd eu plentyn wedi sôn am unrhyw newidiadau o ran arlwyro ar gyfer anghenion deietegol penodol (er


enghraifft, alergeddau neu anghenion synhwyrdd) ers cyflwyno UPFSM. Dywedodd tua dwy ran o dair nad oeddent yn gwybod a oedd eu plentyn wedi sôn am unrhyw newidiadau, tra nododd un o bob pump (20%) fod eu plentyn wedi sôn am newid. O'r rhai yr oedd eu plentyn wedi sôn am newid, roedd mwy o'r farn bod y ddarpariaeth ar gyfer anghenion deietegol penodol wedi gwella (14%) yn hytrach na gwaethygu (6%).

Mae Ffigur 10 yn tynnu sylw at wahaniaethau yn ôl a oedd ymatebwyr yn nodi bod gan eu plentyn angen deietegol penodol. Nododd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr nad oedd gan eu plentyn unrhyw anghenion deietegol (88%). O fewn y grŵp hwn, dywedodd saith o bob deg (69%) nad oeddent yn gwybod a oedd eu plentyn wedi sôn am unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth arlwy. I'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr yr oedd gan eu plentyn anghenion deietegol (12% o'r ymatebwyr) yn fwy tebygol o adrodd bod eu plentyn wedi sôn am welliannau.

Dywedodd bron i hanner (48%) o'r ymatebwyr yr oedd angen darpariaeth halal neu kosher ar eu plentyn fod eu plentyn wedi sôn am welliannau wrth ddiwallu eu hanghenion deietegol, o'i gymharu â 12% o'r ymatebwyr nad oedd gan eu plentyn ofyniad deietegol. Roedd ymatebwyr y mae gan eu plentyn alergeddau neu y maent yn llysieuwr/fegan hefyd yn fwy tebygol o adrodd bod eu plentyn wedi sôn am welliannau (34% alergeddau, 27% llysieuwyr neu feganiaid) yn hytrach na bod y prydau wedi gwaethygu (15% alergeddau, 17% llysieuwyr neu feganiaid).

Adroddwyd patrwm ychydig yn wahanol ymhlith ymatebwyr yr oedd gan eu plentyn angen deietegol arall nad oedd wedi'i restru yn yr arolwg. Roedd chwarter (25%) ohonynt yn dweud bod eu plentyn wedi sôn bod y ddarpariaeth wedi gwaethygu llawer ers cyflwyno UPFSM. Disgrifiodd mwyafrif yr ymatebion 'eraill' ofynion deietegol penodol, yn bennaf alergeddau yn gysylltiedig â chnau, gwenith, glwten (gan gynnwys clefyd seliag), llaeth buwch, lactos neu gynnyrch llaeth (63%). Disgrifiodd dros chwarter (27%) o'r ymatebwyr anghenion meddygol penodol eraill a oedd wedi effeithio ar ddeiet eu plentyn, gan gynnwys yr angen am brydau calorïau uchel, problemau arennau, diabetes math 1 neu anghenion cymhleth eraill.

Ffigur 10: ymatebion i'r cwestiwn “a yw eich plentyn wedi sôn am unrhyw newidiadau i'r canlynol ers cyflwyno UPFSM: darparu ar gyfer anghenion deietegol penodol (e.e. alergeddau neu broblemau synhwyrdd)” yn ôl angen deietegol penodol



[Nodyn 1]: Dewisiadau sydd ar gael yn yr arolwg: dim, alergeddau, halal, kosher, llysieuol, fegan, arall – nodwch os gwelwch yn dda.

Disgrifiad o ffigur 10: siart bar yn dangos ymatebion i newidiadau i'r ffordd y diwallir anghenion deietegol a grybwyllwyd gan blant. Mae'r rhan fwyaf yn nodi 'Ddim yn gwybod' (65%) a'r rhai ag anghenion deietegol, gan gynnwys y rhai ag alergeddau, llysieuwyr neu feganiaid, y rhai â chyfyngiadau crefyddol neu anghenion deietegol penodol eraill, yn fwy tebygol o nodi newid cadarnhaol.

Mae'r broses o reoli nifer cynyddol o anghenion deietegol wedi'i gwneud o dan fframweithiau rheoleiddio presennol, gan gynnwys y Rheoliadau Bwyta'n Iach a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae esemptiadau sylweddol o'r Rheoliadau Bwyta'n Iach yn gysylltiedig â gofynion deietegol a ragnodir yn feddygol, tra bod addasiadau bach yn cael eu gwneud yn fwy cyffredin o fewn y fframwaith rheoleiddio presennol.

At ei gilydd, mae ymatebion i'r arolwg yn awgrymu nad oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymwybodol a oedd eu plentyn wedi sôn am unrhyw newidiadau i ddiwallu anghenion deietegol penodol ers cyflwyno UPFSM. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yr oedd gan eu plentyn ofyniad deietegol yn fwy tebygol o adrodd bod eu plentyn wedi sôn am welliannau, er bod hyn yn amrywio yn ôl y math o angen deietegol. Mae'n bosibl bod y gyfran uchel o ymatebion 'ddim yn gwybod' yn adlewyrchu'r nifer gymharol fach o ddysgwyr sydd angen darpariaeth arbenigol, yn ogystal â'r ffaith bod newidiadau i arlwygo deietegol yn aml yn cael eu hintegreiddio i drefniadau arlwygo arferol ysgolion ac felly gallant fod yn llai gweladwy i ddysgwyr a'u teuluoedd.

4.3.2. Effaith ar weddill y diwrnod ysgol

Mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu effaith gadarnhaol ganfyddedig gymedrol ar fwynhad dysgwyr o'r ysgol, er nad oedd bron i hanner y rhieni a'r gofalwyr (45%) yn cytuno nac yn anghytuno bod eu plentyn yn mwynhau'r ysgol yn fwy o ganlyniad i'r polisi. Cytunodd mwy o ymatebwyr fod mwynhad eu plentyn wedi cynyddu (28%) nag a anghytunodd (14%).

Roedd ymatebwyr y mae eu plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd yn fwy tebygol o gytuno'n gryf neu gytuno bod eu plentyn yn mwynhau'r ysgol yn fwy o ganlyniad i'r polisi (38%, o'i gymharu â 22% ar gyfer ymatebwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim). Ar ben hynny, roedd gan ymatebwyr sy'n ennill hyd at £40,000 y flwyddyn lefelau uwch o gytundeb bod eu plentyn yn mwynhau'r ysgol yn fwy nawr, o'i gymharu ag ymatebwyr sy'n ennill dros £40,000 (cytundeb o 34% i 41% ar gyfer hyd at £40,000, o'i gymharu â 18% i 27% ar gyfer dros £40,000). Un esboniad posibl am y lefelau uwch o gytundeb ymhlith ymatebwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yw y gallai darpariaeth gyffredinol fod wedi lleihau rhywfaint o'r stigma a oedd yn gysylltiedig yn flaenorol â bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim.

Mae ymatebion i'r arolwg hefyd yn dangos bod rhai rhieni a gofalwyr wedi canfod gwelliant yn lefelau egni eu plentyn yn ystod y prynhawn yn dilyn cyflwyno UPFSM. At ei gilydd, roedd mwy na thraean o'r ymatebwyr (37%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod gan eu plentyn fwy o egni yn y prynhawn nawr, o'i gymharu â 15% a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Roedd y cytundeb uchaf ymhlith ymatebwyr o aelwydydd sy'n ennill llai na £10,000 y flwyddyn (48%) ac ymhlith dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim (43%, o'i gymharu â 33% nad ydynt yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim). Roedd y cytundeb yn debyg yn fras ar draws grwpiau incwm canol (38% i 42%), ond yn is ymhlith aelwydydd sy'n ennill dros £50,000 (30%). Fodd bynnag, roedd lefelau anghytundeb yn gymharol gyson ar draws grwpiau incwm.

Gall canfyddiadau o'r adroddiad interim cyntaf helpu i roi cyd-destun i'r gwahaniaethau hyn. Awgrymodd tystiolaeth astudiaethau achos fod gan y polisi effaith fwy ar newyn a diffyg diogeledd bwyd ymhlith dysgwyr o gartrefi mwy dan anfantais. Teimlai rhai staff ysgol, rhieni a gofalwyr fod dysgwyr a oedd wedi cyrraedd yr ysgol yn llwglyd o'r blaen yn arbennig o debygol o elwa. Gallai hyn helpu i esbonio pam roedd ymatebwyr o gartrefi incwm is yn fwy tebygol o ganfod gwelliannau yn lefelau egni prynhawn eu plentyn, er nad yw'r arolwg yn sefydlu perthynas achosol.

Awgrymodd ymatebion yr arolwg hefyd effaith gadarnhaol ganfyddedig gymedrol ar allu dysgwyr i ganolbwyntio yn yr ysgol ac yn ystod gwersi, er na chafodd hyn ei adrodd amdano yn gyfartal ar draws grwpiau. Cytunodd tua thraean o'r ymatebwyr (33%) fod eu plentyn yn gallu canolbwyntio'n well yn yr ysgol. Nid oedd 38% arall yn cytuno nac yn anghytuno a nododd 17% nad oes ganddynt farn. Dim ond 12% o'r ymatebwyr oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Roedd canfyddiadau bod gallu dysgwyr i ganolbwyntio wedi gwella yn amrywio rhwng grwpiau ymatebwyr. Roedd cytundeb yn uwch ymhlith ymatebwyr yr oedd eu plentyn yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd (42%) ac yn gyffredinol gostyngodd wrth i incwm yr aelwyd gynyddu. Roedd bron i hanner yr ymatebwyr o gartrefi sy'n ennill llai na £10,000 (46%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod

gallu eu plentyn i ganolbwyntio wedi gwella, o'i gymharu â 24% o'r rhai sy'n ennill dros £50,000. Fel yn achos lefelau egni'r prynhawn, un dehongliad posibl yw canfyddiad bod UPFSM wedi cael mwy o effaith pan oedd yn gwella mynediad at brydau bwyd. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau rhieni a gofalwyr ac nid ydynt yn darparu mesur gwrthrychol o newidiadau yng ngallu dysgwyr i ganolbwyntio.


4.4. Pa effaith mae'r polisi wedi'i chael ar deuluoedd?

Mae'r is-adran hon yn archwilio barn ymatebwyr ar effaith ganfyddedig UPFSM ar deuluoedd, gan gynnwys cyllid, arbedion amser, ac effeithiau ehangach ar fywyd teuluol gartref. Mae ymatebion i'r arolwg yn dangos bod y polisi wedi cael ei ystyried yn gadarnhaol gan lawer o rieni a gofalwyr, yn enwedig o ran llai o bwysau ariannol, amser a arbedwyd, a lefelau is o bryder ynghylch mynediad eu plentyn at fwyd yn ystod y diwrnod ysgol. Buddion ariannol oedd y budd yr adroddwyd amdano amlaf, gan adlewyrchu arbedion o beidio â gorfod talu am giniawau ysgol, paratoi pecynnau cinio, neu gyfuniad o'r ddau mwyach. Adroddwyd yn gyffredin hefyd am arbedion o ran amser, yn enwedig pan nad oedd angen i deuluoedd baratoi pecynnau cinio mwyach. Roedd effeithiau ymddygiadol ehangach ar lefel y teulu yn fwy cymedrol, ac roedd ymatebwyr yn aml yn nodi bod eu plentyn yn rhoi cynnig ar fwydydd newydd o ganlyniad i'r polisi, ond ni welwyd bod hyn yn arwain at newidiadau yn arferion coginio gartref.

4.4.1. Arbedion ariannol

Nododd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg eu bod wedi profi arbedion cost o ganlyniad i'r polisi, fel y dangosir yn Ffigur 11.

Ffigur 11: ymatebion i'r cwestiwn “a yw argaeledd cinio ysgol am ddim wedi cael effaith ar gyllid eich teulu? (e.e. arbedion cost o beidio â gorfod paratoi pecynnau cinio a/neu dalu am brydau ysgol)” (n = 1,517)



Disgrifiad o ffigur 11: siart bar yn dangos a yw ciniawau ysgol am ddim wedi effeithio ar gyllid teuluoedd. Mae 77% yn nodi arbedion cost, 18% yn nodi dim arbedion, a 5% yn nodi nad ydyn nhw'n gwybod.

Roedd yr arbedion yr adroddwyd amdanynt yn gyson ar y cyfan ar draws y rhan fwyaf o grwpiau o ymatebwyr. Dywedodd o leiaf 71% o'r ymatebwyr ym mhob grŵp (gan gynnwys statws cymwys am brydau ysgol am ddim, statws ADY a lleoliad) fod eu haelwyd wedi profi rhywfaint o arbedion ariannol o ganlyniad i UPFSM. Yn ôl band incwm, fodd bynnag, roedd amrywiad yn fwy amlwg. Ymatebwyr o aelwydydd sy'n ennill llai na £10,000 y flwyddyn oedd leiaf tebygol o nodi cynilion (61%), o'i gymharu â 77% i 83% ar draws y rhan fwyaf o grwpiau incwm eraill. Gall hyn adlewyrchu'n rhannol y ffaith bod rhai aelwydydd yn y grŵp incwm hwn eisoes wedi bod yn cael prydau ysgol am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd cyn cyflwyno UPFSM ac felly wedi profi llai o arbedion ariannol ychwanegol o'r polisi. Efallai fod y ffaith bod llai o unigolion yn y grŵp hwn yn manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim hefyd wedi cyfrannu, gan y gallai fod gan deuluoedd y mae eu plentyn yn gwneud llai o ddefnydd o'r cynnig lai o gyfleoedd i arbed arian. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl pennu o ddata'r arolwg i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn egluro'r amrywiad yn yr arbedion yr adroddwyd amdanynt rhwng grwpiau incwm.

Cyrhaeddodd yr arbedion yr adroddwyd amdanynt uchafbwynt ymhlith ymatebwyr o aelwydydd a oedd yn ennill rhwng £30,001 a £40,000 (86%) cyn gostwng ychydig ar gyfer lefelau incwm uwch. Mae canfyddiadau'r arolwg hyn yn dangos, er bod buddion ariannol yn gyffredin, eu bod yn cael eu hadrodd amdanynt amlaf ymhlith aelwydydd incwm canolig.

Nododd yr ymatebwyr wahanol ffynonellau o arbedion. Nododd dros draean (37%) o'r ymatebwyr arbedion o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn paratoi llai o becynnau cinio ac nad ydynt yn talu am brydau ysgol. Adroddodd 34% arall am arbedion yn sgil paratoi llai o becynnau cinio yn unig, tra adroddodd 28% am arbedion yn sgil peidio â thalu am brydau ysgol yn unig. Roedd y gwahaniaethau ar draws grwpiau yn gymharol fach; pan oeddent yn bodoli, efallai mai dim ond adlewyrchu gwahaniaethau mewn trefniadau amser cinio cyn cyflwyno'r polisi ydynt.


Arbedion drwy gyfuniad o beidio â pharatoi pecynnau cinio mwyach a pheidio â thalu am brydau ysgol mwyach oedd y llwybr mwyaf cyffredin i arbed costau, yr adroddwyd amdano gan 37% o'r ymatebwyr. Roedd y gwahaniaethau ar draws grwpiau yn gyfyngedig. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr nad yw eu plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd ychydig yn fwy tebygol o nodi cynilion cyfun (38%, o'i gymharu â 32% o'r rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim). Gallai hyn adlewyrchu sefyllfa lle roedd mwy o ddysgwyr yn cael pecynnau cinio a phrydau ysgol cyn y polisi o'i gymharu â'r rhai a oedd yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd. Roedd ymatebwyr ag incwm aelwyd rhwng £30,001 a £50,000 hefyd yn fwy tebygol o nodi cynilion cyfun (42%, o'i gymharu â 32% i 35% ar draws grwpiau incwm eraill).

Ymhlith y rhai oedd yn arbed drwy'r ddau lwybr, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg eu bod wedi arbed rhwng £5 a £15 yr wythnos o bob ffynhonnell, gan awgrymu arbedion wythnosol cyfun nodweddiadol o rhwng £10 a £30.

Mae Ffigur 12 isod yn dangos cydberthynas glir rhwng arbedion o ganlyniad i baratoi llai o becynnau cinio a pheidio â thalu am brydau ysgol mwyach. Roedd ymatebwyr a nododd arbedion llai mewn perthynas â phecynnau cinio yn debygol o nodi arbedion llai tebyg mewn perthynas â phrydau ysgol, ac mae'r un patrwm yn wir am fandiau arbedion uwch. At

ei gilydd, mae'r cysondeb hwn yn awgrymu bod arbedion o'r ddwy ffynhonnell yn tueddu i gronni yn hytrach na gwrthbwysu ei gilydd.

Ffigur 12: ymatebion i'r cwestiwn “tua faint o arian ydych chi'n ei arbed bob wythnos nawr drwy baratoi llai o becynnau cinio?” a “tua faint o arian ydych chi'n ei arbed bob wythnos nawr drwy beidio â gorfod talu am giniawau ysgol?” pan nododd yr ymatebwyr eu bod wedi arbed drwy'r ddau ddull (n = 419)




[Nodyn 1]: Ymatebion yn seiliedig ar y gost gyfartalog ar gyfer un plentyn ar gyfer wythnos ysgol nodweddiadol.

Disgrifiad o ffigur 12: siart bar o arbedion wythnosol yn dangos bod y rhan fwyaf yn arbed rhwyng £10 a £15, sy'n cynnwys 31% ar becynnau cinio a 30% ar brydau ysgol. Mewn cyferbyniad, nifer gymharol fach o ymatebwyr a nododd arbedion o lai na £5 (4% mewn perthynas â pheccynnau cinio; 6% mewn perthynas â phrydau ysgol) neu fwy nag £20 yr wythnos (12% mewn perthynas â pheccynnau cinio; 12% mewn perthynas â phrydau ysgol).

Fel y dangosir yn Ffigur 13, roedd ymatebwyr a arbedodd arian drwy beidio â thalu am brydau ysgol mwyach yn unig yn gyffredinol yn nodi arbedion wythnosol uwch na'r rhai a arbedodd arian drwy baratoi llai o becynnau cinio yn unig. Roedd arbedion mewn perthynas â phrydau ysgol wedi'u crynhoi'n fwy yn yr ystod £10 i £20, tra oedd arbedion mewn perthynas â pheccynnau cinio wedi'u crynhoi'n fwy yn yr ystod £5 i £15. Roedd llai o ymatebwyr yn nodi symiau uwch. Mae hyn yn dangos, er bod y ddau lwybr yn cyfrannu at arbedion cyffredinol, bod costau prydau ysgol yn tueddu i gyfrif am gyfran fwy.

Ffigur 13: ymatebion i'r cwestiwn “tua faint o arian ydych chi'n ei arbed bob wythnos nawr drwy baratoi llai o becynnau cinio?” a “tua faint o arian ydych chi'n ei arbed bob wythnos nawr drwy baratoi llai o becynnau cinio?” pan nododd yr ymatebwyr eu bod wedi arbed drwy un dull yn unig



[Nodyn 1]: Ymatebion yn seiliedig ar y gost gyfartalog ar gyfer un plentyn ar gyfer wythnos ysgol nodweddiadol.

Disgrifiad o ffigur 13: siart bar o arbedion wythnosol yn dangos bod 33% yn arbed rhwng £5 a £10 ar becynnau cinio a 34% yn arbed rhwng £10 a £15 ar brydau ysgol.

Y tu hwnt i arbedion ariannol uniongyrchol, roedd y polisi hefyd yn gysylltiedig â llai o bryder ariannol i lawer o ymatebwyr. Ar y cyfan, roedd 62% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf nad ydyn nhw'n poeni mwyach am gael digon o arian i dalu am brydau ysgol, gan gynnwys 38% a oedd yn cytuno'n gryf. Roedd yr effaith ganfyddedig hon yn llai amlwg ymhlith ymatebwyr o aelwydydd incwm uwch: roedd 26% o'r rhai oedd yn ennill dros £50,000 yn cytuno'n gryf, o'i gymharu â 45% i 51% ar draws grwpiau incwm eraill. Mae hyn yn awgrymu bod ymatebwyr o aelwydydd incwm is a chanolig yn fwy tebygol na'r rhai o aelwydydd incwm uwch o nodi gostyngiad yn y pryder y maent yn ei deimlo mewn perthynas â chostau prydau ysgol.

Roedd y ffaith bod angen llai o amser i baratoi pecynnau cinio hefyd yn arbed amser. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (70%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y polisi wedi arbed amser iddynt. Adroddwyd ar hyn ar draws pob grŵp, er bod cytundeb ychydig yn uwch ymhlith rhieni a gofalywyr plentyn heb ADY (72%, o'i gymharu â 60%), y rhai nad oeddent yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd (73%, o'i gymharu â 61%), ac aelwydydd incwm uwch (73% uwchlaw £50,000, o'i gymharu â 60% islaw £10,000).

Er gwaethaf y buddion hyn o ran arian ac amser yr adroddwyd amdanynt, roedd tystiolaeth fwy cyfyngedig o ymatebion yr arolwg bod y polisi wedi lleihau pryder dysgwyr ynghylch arian yn yr ysgol. Nid oedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno (32%) neu'n

nodi dim barn (27%). Ymhlith y rhai a fynegodd farn, roedd mwy yn anghytuno (23%) nag yn cytuno (18%) bod eu plentyn yn poeni llai am arian yn yr ysgol.

Roedd rhywfaint o amrywiad yn ôl grwpiau ymatebwyr. Roedd rhieni a gofalwyr plentyn sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd yn fwy tebygol o nodi llai o bryder (26%, o'i gymharu ag 13% ymhlith y rhai nad oeddent yn gymwys), yn yr un modd ag ymatebwyr o aelwydydd incwm is (29% i 34% ar gyfer incwm hyd at £30,000, o'i gymharu â 7% uwchlaw £50,000). Gallai hyn fod oherwydd bod y grwpiau hyn wedi profi mwy o bryderon yn ymwneud ag arian cyn y polisi, gan wneud unrhyw newidiadau dilynol yn fwy amlwg. Fodd bynnag, ni all data'r arolwg ddod i gasgliad ynghylch pam y ceir y gwahaniaethau hyn.

4.4.2. Effeithiau ar fywyd teuluol

Fel polisi sy'n ymwneud â'r ysgol, disgwylir i brif effeithiau UPFSM gael eu profi o fewn y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos rhai effeithiau ehangach ar fywyd teuluol, yn enwedig llai o bryder ymhlith rhieni a gofalwyr ynghylch mynediad eu plentyn at fwyd a mwy o gysylltiad ag ystod ehangach o fwydydd. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth gyfyngedig bod yr effeithiau hyn yn ymestyn i amgylchedd y cartref ar ffurf newidiadau i drefniadau arferol neu ymddygiadau yn y cartref megis arferion coginio.

Roedd tua hanner yr ymatebwyr (56%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn poeni llai ynghylch a oedd eu plentyn yn cael digon o fwyd yn ystod y diwrnod ysgol. Roedd y patrwm hwn yn gyson ar draws grwpiau demograffig, ac roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o gytuno nag anghytuno waeth beth fo'u statws ADY, eu statws o ran bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim, eu lleoliad, neu incwm eu haelwyd. Mae hyn yn awgrymu bod y polisi wedi rhoi ymdeimlad eang o sicrwydd i ymatebwyr.

Mae ymatebion i'r arolwg hefyd yn awgrymu y gallai dysgwyr fod yn rhoi cynnig ar fwydydd newydd ers cyflwyno'r polisi. At ei gilydd, roedd 58% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod eu plentyn yn rhoi cynnig ar fwydydd newydd. Roedd y patrwm hwn yn amlwg ar draws grwpiau demograffig. Fodd bynnag, roedd rhieni a gofalwyr plentyn ag ADY (11% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn) yn llai tebygol o adrodd am y newid hwn, ac roedd lefelau is o gytundeb cryf (17%, o'i gymharu â 21% ar gyfer rhieni a gofalwyr nad oes gan eu plentyn ADY) a lefelau uwch o anghytundeb cryf (19%, o'i gymharu â 9% o'r ymatebwyr yn gyffredinol).

Er gwaethaf y newidiadau hyn yr adroddwyd amdanynt, prin oedd y dystiolaeth o ymatebion yr arolwg y bu newid cyfatebol mewn arferion coginio yn y cartref. Roedd ymatebwyr i'r arolwg yn fwyaf tebygol o beidio â chytuno nac anghytuno bod eu harferion coginio wedi newid (29%), ac roedd anghytundeb cyffredinol yn gorbwyso cytundeb (39%, o'i gymharu â 29%). Roedd y patrwm hwn yn gyson yn fras ar draws pob grŵp, er bod rhieni a gofalwyr plentyn sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd wedi nodi lefelau ychydig yn uwch o gytundeb a lefelau is o anghytundeb na rhieni a gofalwyr plentyn nad yw'n gymwys.

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod ymatebwyr yn fwy tebygol o nodi newidiadau cadarnhaol yn ymwneud â phrofiadau eu plentyn yn ystod y diwrnod ysgol na

newidiadau o fewn amgylchedd y cartref. Er bod rhai ymatebwyr wedi canfod gostyngiadau mewn pryder ynghylch mynediad at fwyd a chynnydd o ran cysylltiad eu plentyn i fwydydd newydd, nid oedd yr effeithiau hyn yr adroddwyd amdanynt yn gysylltiedig yn gyson â newidiadau i drefn arferol y cartref nac arferion coginio.

5. Casgliadau

5.1. Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu bod y polisi UPFSM yn hysbys iawn ac yn gyffredinol yn cael ei gefnogi'n helaeth gan ymatebwyr. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr i'r arolwg yn ymwybodol o'r polisi, ac roedd llawer yn gwerthfawrogi'r egwyddor bod pob dysgwr yn cael yr un cynnig. Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu barn a phrofiadau ymatebwyr yr arolwg a dylid ei dehongli yng ngoleuni natur anghynrychioliadol yr arolwg. Er ei fod yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar brofiadau ymatebwyr o UPFSM, ni ddylid ei gymryd yn ganiataol ei fod yn adlewyrchu profiadau pob rhiant a gofalwr yng Nghymru.

Ar y cyfan, gwnaeth ymatebwyr i'r arolwg ddisgrifio UPFSM fel rhywbeth a gafodd effaith gadarnhaol, yn enwedig o ran helpu i leihau stigma ynghylch prydau ysgol am ddim, cefnogi iechyd a llesiant plant, a'u gwneud yn fwy parod i ddysgu. Roedd ymatebwyr hefyd yn aml yn nodi buddion i fwyd teuluol, gan gynnwys lleihau pwysau ariannol ac arbedion o ran amser sy'n gysylltiedig â pheidio â gorfod paratoi pecynnau cinio na thalu am brydau ysgol mwyach. Dim ond lleiafrif bach a fynegodd safbwyntiau negyddol neu gymysg, yn fwyaf cyffredin yn ymwneud ag a oedd y polisi yn cynrychioli'r defnydd gorau o adnoddau ac a ddylai fod wedi'i dargedu'n fwy at deuluoedd â'r angen mwyaf.

Adroddwyd gan ymatebwyr i'r arolwg bod nifer uchel yn bwyta prydau ysgol, ac adroddwyd bod bron pob dysgwr yn bwyta o leiaf un pryd ysgol yr wythnos a'r rhan fwyaf ohonynt yn bwyta prydau ysgol bob dydd. Ymhlith yr ymatebwyr yr oedd eu plentyn eisoes yn yr ysgol gynradd pan gyflwynwyd UPFSM, dywedodd ychydig o dan hanner fod eu plentyn bellach yn bwyta mwy o brydau ysgol bob wythnos nag cyn cyflwyno'r polisi, tra oedd llai nag un o bob pump yn nodi gostyngiad. Fodd bynnag, nid oedd patrymau o ran nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim yn unffurf. Roedd y nifer yr adroddwyd amdano a oedd yn manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim yn is ac, mewn rhai achosion, yn gostwng ymhlith ymatebwyr incwm is, a oedd yn llai tebygol o adrodd am gynnydd o ran y nifer a oedd yn manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim yn dilyn cyflwyno'r polisi. Ar yr un pryd, roedd y nifer yr adroddwyd amdano a oedd yn manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim ymhlith plant iau o deuluoedd incwm is yn uwch nag ymhlith disgyblion hŷn. Mae hyn o bosibl yn dangos arwyddion cynnar effaith garfan a allai, os caiff ei chynnal, arwain at fwy o ddysgwyr yn manteisio ar y cynnig dros amser.

Cost oedd y rheswm a ddewiswyd amlaf pam roedd teuluoedd yn dewis prydau ysgol, tra bod dewis cyfyngedig ar y fwydlen oedd y rhwystr yr adroddwyd amdano amlaf, ochr yn ochr â phryderon canfyddedig ynghylch blas, ansawdd bwyd a maint dognau. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, er bod y ffaith bod y pryd o fwyd am ddim yn ffactor galluogi pwysig, bod y nifer sy'n manteisio ar y cynnig yn parhau i ddibynnu ar ansawdd, amrywiaeth a derbynioldeb y cynnig o brydau ysgol am ddim.

Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn teimlo bod UPFSM wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant eu plentyn. Roedd y buddion canfyddedig yn cynnwys mwy o fynediad at bryd poeth a chytbwys, llai o stigma, lefelau egni gwell, a dysgwyr yn gallu canolbwyntio'n well wrth ddysgu yn y prynhawn. Roedd llawer o ymatebwyr hefyd yn teimlo bod eu plentyn yn mwynhau amser cinio yn fwy o ganlyniad i'r polisi. Roedd canfyddiadau o'r amgylchedd bwyta a bwyd yr ysgol yn niwtral ar y cyfan, er bod rhai ymatebwyr wedi canfod gwelliannau cymedrol. Roedd y safbwyntiau'n fwy cymysg ymhlith ymatebwyr o aelwydydd incwm uwch a'r rhai sydd â phlentyn ag ADY.

Roedd ymatebwyr hefyd yn aml yn canfod buddion o ran bywyd teuluol, gan gynnwys llai o bwysau ariannol ac arbedion o ran amser o beidio â gorfod talu am brydau ysgol, paratoi pecynnau cinio, neu'r ddau. Adroddodd rhai ymatebwyr hefyd am lai o bryder ynghylch a oedd eu plentyn yn cael digon o fwyd yn ystod y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth gyfyngedig o ymatebion i'r arolwg bod y buddion ariannol canfyddedig hyn yn arwain at lai o bryderon ynghylch arian ymhlith y dysgwyr eu hunain. Er bod barn ar effeithiau yn gyson yn fras ar draws grwpiau ymatebwyr, ymatebwyr o aelwydydd incwm canolig yr adroddwyd amdanynt amlaf.

Er bod canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu bod llawer o ymatebwyr yn credu bod UPFSM yn darparu buddion ystyrlon iddyn nhw eu hunain a'u plant, maent hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynyddu'r nifer sy'n manteisio arnynt a pharhau i wella dewis, amrywiaeth a blas prydau ysgol i sicrhau bod y buddion hynny'n cael eu gwireddu mor eang â phosibl.

5.2. Myfyrdodau

Mae canfyddiadau'r arolwg hwn yn darparu tystiolaeth bod UPFSM yn dod yn rhan sefydledig o fywyd ysgol a bod y polisi'n cyflawni ystod o fuddion canfyddedig ar gyfer dysgwyr a theuluoedd. Fodd bynnag, maent hefyd yn awgrymu nad yw'r berthynas rhwng hawlogaeth i'r pryd o fwyd a'r effaith yn syml. Cost prydau ysgol yw un o sawl ffactor sy'n dylanwadu ar nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim.

Mae'r ffactorau ehangach hyn yn cynnwys dewis bwydlen, blas, maint dognau, ansawdd bwyd, a'r graddau y mae'r prydau bwyd a gynigir yn diwallu anghenion unigol dysgwyr. Mae'r ffactorau hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd ystyried y nifer sy'n manteisio ar y cynnig fel mecanwaith y gellir gwireddu buddion a nodau ehangach y polisi o'i herwydd.

Roedd gwahaniaethau hefyd yn amlwg yn y ffordd y profodd yr ymatebwyr y polisi. Adroddwyd ar effeithiau cadarnhaol ar draws y rhan fwyaf o grwpiau, ond roedd y nifer a fanteisiodd ar y cynnig yn is ac, mewn rhai achosion, yn gostwng ymhlith aelwydydd incwm is, er gwaethaf y posibilrwydd y byddai'r teuluoedd hyn yn elwa fwyaf o'r buddion ariannol a llesiant sy'n gysylltiedig â chael pryd ysgol am ddim. Ar yr un pryd, gall lefelau uwch o ddysgwyr iau o deuluoedd incwm is awgrymu bod patrymau cyfranogiad yn parhau i esblygu wrth i garfannau sydd wedi profi'r polisi am gyfnod hirach symud ymlaen trwy'r ysgol gynradd. Bydd deall a yw'r patrymau hyn yn parhau dros amser yn bwysig ar gyfer dehongli effeithiau tymor hwy'r polisi.

Mae canfyddiadau'r arolwg hefyd yn awgrymu nad yw buddion canfyddedig UPFSM yn cael eu profi'n gyfartal ar draws pob teulu. Er bod effeithiau cadarnhaol wedi'u hadrodd amdanynt ar draws y rhan fwyaf o grwpiau, roeddent yn aml yn gryfaf ymhlith aelwydydd a

allai fod wedi wynebu mwy o bwysau ariannol neu rwystrau o ran cael mynediad at fwyd cyn cyflwyno'r polisi. Gallai hyn awgrymu bod ymatebwyr yn fwy tebygol o nodi buddion pan oedd y polisi'n cynrychioli newid ystyrlon i fynediad eu plentyn at fwyd yn ystod y diwrnod ysgol. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at y ffaith nad yw ehangu hawlogaeth yn unig yn sicrhau bod dysgwyr yn cael prydau ysgol yn gyson, a bod amrywiaeth o ffactorau'n parhau i ddylanwadu ar a yw dysgwyr yn cael prydau ysgol yn rheolaidd.

5.3. Camau nesaf

Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r adroddiad interim cyntaf ac wedi'i lywio gan y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn, mae'r is-adran hon yn nodi tri phrif faes ar gyfer ymchwil bellach yng ngham olaf y gwerthusiad:

- patrymau o ran manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim
- heriau a allai wynebu dysgwyr ag ADY a dysgwyr mewn ysgolion arbennig
- rhwystrau a galluogwyr i gynyddu faint o fwyd sy'n cael ei gaffael yn lleol

Patrymau o ran manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim: Er gwaethaf lefelau uchel o ymwybyddiaeth a dysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim yn gyffredinol, mae canfyddiadau arolwg o'r adroddiad hwn yn awgrymu bod niferoedd y dysgwyr sy'n cael UPFSM yn parhau i fod yn is ymhlith rhai aelwydydd incwm is ac, mewn rhai achosion, ymddengys fod y niferoedd wedi gostwng. Byddai rhagor o dystiolaeth yn helpu i ddeall pam nad yw rhai teuluoedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn manteisio'n llawn ar y cynnig cyffredinol a pha gamau sydd fwyaf effeithiol wrth gefnogi cyfranogiad cynaliadwy.

Dysgwyr ag ADY: Er bod rhieni a gofalgwyr yn gyffredinol wedi nodi canfyddiadau niwtral neu welliant cymedrol o fwyd ysgol a phrofiadau amser cinio, mae angen ymchwil bellach i ddeall yn well sut mae ehangu'r ddarpariaeth yn effeithio ar ddysgwyr ag ADY, yn enwedig mewn ysgolion arbennig. Bydd hyn yn helpu i feithrin dealltwriaeth o sut mae amgylcheddau amser cinio a threfniadau gweini yn cefnogi neu'n cyfyngu ar gyfranogiad a'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig ymhlith y grŵp hwn o ddysgwyr.

Caffael lleol: Er bod gweithgareddau ymchwil cynnar a gynhaliwyd yn yr adroddiad interim cyntaf wedi archwilio newidiadau o ran cyrchu a chaffael bwyd, mae angen ymchwil bellach i ddeall sut mae'r arferion hyn yn esblygu dros amser. Mae caffael bwyd yn lleol yn nod polisi penodol UPFSM ac mae'r gwerthusiad yn gyfle pwysig i archwilio trefniadau caffael lleol. Mae hefyd yn bwysig deall sut mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn addasu eu dulliau i gefnogi darpariaeth barhaus o UPFSM yng ngoleuni cyflwyno'r Rheoliadau Bwyta'n Iach newydd, y disgwyli'r iddynt ddod i rym ym mis Hydref 2026.

Atodiad 1: Atodiad methodolegol

Atodiad 1.1: Cynllun yr arolwg

Cynlluniwyd cwestiynau'r arolwg yn bennaf i ddeall a oedd teuluoedd yn manteisio ar y cynnig am bryd ysgol am ddim yn dilyn cyflwyno UPFSM, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar sut roedd y polisi'n cael ei gyflwyno neu ei weithredu mewn ysgolion. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau meintiol i raddau helaeth, ac ychydig o gwestiynau testun agored dewisol pan oedd yn briodol. Cafodd cwestiynau'r arolwg eu grwpio o dan is-themâu penodol:

- nodweddion aelwydydd a dysgwyr
- ymwybyddiaeth o'r polisi
- effaith y polisi ar fywyd ysgol
- effaith y polisi ar iechyd a llesiant plant
- effaith y polisi ar deuluoedd

Cafodd yr arolwg ei dreialu cyn ei lansio gydag ymchwilydd yn Ymchwil Arad nad oeddent yn rhan o'r prosiect ond a oedd â phlant oedran ysgol gynradd yn mynychu ysgol yng Nghymru. Profwyd yr arolwg gan dri ymchwilydd, a roddodd sylwadau a gafodd sylw cyn y lansiad swyddogol.

Atodiad 1.2: Dosbarthiad a chyfyngiadau'r arolwg

Lansiwyd yr arolwg rhieni a gofalyddwyr ar 7 Hydref 2025 a daeth i ben ar 10 Rhagfyr 2025, gan dderbyn 1,517 o ymatebion. Cynhaliwyd yr arolwg drwy blatfform cynnal arolwg Forsta.

Gwahoddwyd pob un o'r 1,199 o ysgolion cynradd yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion arbennig gyda dysgwyr oedran cynradd, i gymryd rhan yn yr arolwg o ysgolion.

Gwahoddwyd ysgolion i gymryd rhan yn yr arolwg dros yr e-bost. Anfonwyd neges e-bost at benaethiaid pob ysgol sydd â dysgwyr oedran cynradd yn gofyn iddynt rannu'r arolwg â rhieni a gofalyddwyr trwy eu sianeli cyfathrebu arferol. Cynhwyswyd dolen i'r arolwg, yn ogystal â chod QR y gellid ei sganio. Anfonwyd negeseuon e-bost gan yr ymchwilydd perthnasol yn uniongyrchol hefyd at benaethiaid ysgolion a oedd yn rhan o'r astudiaethau achos.

Anfonwyd nodiadau atgoffa ar 20 Hydref 2025, 10 Tachwedd 2025 (gan gyfrif am hanner tymor wythnos olaf mis Hydref) a 24 Tachwedd 2025. Cyn pob nodyn atgoffa, adolygwyd yr ymatebion gan yr ysgol er mwyn osgoi cysylltu ag ysgolion a oedd eisoes wedi rhannu'r arolwg.

Rhannwyd yr arolwg â phob ysgol, yn hytrach na dilyn methodoleg samplu wedi'i thargedu, er mwyn cynyddu'r cyfle i rieni a gofalyddwyr ymateb i'r arolwg a rhannu eu barn ar y polisi. Un anfantais i'r dull hwn oedd ei fod yn cyfyngu ar y cyfle i wneud gwaith dilynol wedi'i dargedu gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Fodd bynnag, gwnaed ymdrechion i fonitro dosbarthiad daearyddol yr ymatebion er mwyn sicrhau sampl eang a chynhwysol.

Un cyfyngiad o ran y dull hwn yw'r potensial ar gyfer tuedd diffyg ymateb. Gan fod cyfranogiad wedi'i hunanddewis, gall ymatebwyr fod yn wahanol yn systematig i'r rhai na wnaeth ymateb. Er enghraifft, efallai y byddai unigolion â barn gryfach neu fwy o fynediad digidol wedi bod yn fwy tebygol o gymryd rhan. O ganlyniad, efallai nad yw'r canfyddiadau'n gwbl gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach a wahoddwyd i gymryd rhan.

Atodiad 1.3: Dadansoddiad o'r arolwg

Ar ôl cau'r arolwg, allforiwyd data meintiol o Forsta i Microsoft Excel i'w glanhau a'u dadansoddi. Cynhaliwyd dadansoddiad disgrifiadol gan ddefnyddio tablau colynnu a swyddogaethau Microsoft Excel, gan gynnwys COUNTIF, COUNTIFS a VLOOKUP.

Pan fo'n berthnasol, cynhaliwyd profion ystadegol i archwilio'r gwahaniaethau rhwng is-grwpiau. Cyflwynir y canlyniadau llawn yn Atodiad B. Defnyddiwyd pedwar grŵp cymharydd mewn profion ystadegol:

- a oes gan y dysgwr anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- a yw'r teulu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim)
- a yw'r ysgol y mae'r dysgwr yn ei mynychu mewn ardal wledig neu drefol
- cyfanswm incwm aelwyd y teulu, cyn treth a chan gynnwys unrhyw fudd-daliadau

Cafodd ymatebion ansoddol eu codio'n thematig. Roedd codio yn cynnwys nodi teimlad cyffredinol a phrif themâu o fewn ymatebion. Er mwyn cefnogi dibynadwyedd ymhlith codwyr, ar ôl y gwaith codio cychwynnol, adolygodd ymchwilydd ar wahân y dadansoddiad, gan ddatrys unrhyw anghysondebau.

Mae'r dadansoddiad yn dibynnu ar ymatebion i'r arolwg ar gyfer y dadansoddiadau o ADY, dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, ac incwm aelwydydd. Ar gyfer incwm aelwyd, rhoddwyd opsiwn 'gwell peidio â dweud' i'r ymatebwyr, a ddewiswyd gan 272 o ymatebwyr. Cafodd eu hymatebion eu heithrio o'r ystadegau disgrifiadol ar gyfer incwm aelwydydd.

Deilliwyd dosbarthiad trefol/gwledig drwy baru enwau ysgolion yr adroddwyd amdanynt â dynodwyr ysgolion a chysylltu'r rhain â dosbarthiadau trefol/gwledig y Swyddfa Ystadegau Gwladol (a gyhoeddwyd ar 25 Ionawr 2022). Ni ddarparwyd digon o wybodaeth gan 36 o ymatebwyr i alluogi'r broses hon o baru data ac maent wedi'u heithrio o'r dadansoddiadau trefol/gwledig.

Atodiad 2: Proffil ymatebion yr arolwg

Mae'r adran hon yn crynhoi proffiliau'r ymatebion cyflawn i'r arolwg a gynhwyswyd yn y dadansoddiad. Cafwyd ymatebion cyflawn i'r arolwg ar draws 19 o awdurdodau lleol. Ni chafodd ymatebion anghyflawn eu hymgorffori yn y dadansoddiad er mwyn sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn cydsynio i gyflwyno eu hatebion terfynol.

Mae Tabl 2 yn amlinellu dosbarthiad yr ymatebion ar draws yr 19 awdurdod lleol, o'i gymharu â chyfran yr ysgolion yng Nghymru ym mhob awdurdod lleol.

Tabl 2: Nifer yr unigolion a ymatebodd i'r arolwg fesul awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Nifer yr ymatebion	Canran yr ymatebion	Canran yr ysgolion yng Nghymru yn yr awdurdod lleol
Blaenau Gwent	33	2%	2%
Pen-y-bont ar Ogwr	7	0%	4%
Caerffili	22	1%	6%
Caerdydd	280	18%	8%
Sir Gaerfyrddin	0	0%	8%
Ceredigion	0	0%	3%
Conwy	86	6%	4%
Sir Ddinbych	115	8%	4%
Sir y Fflint	7	0%	5%
Gwynedd	2	0%	7%
Ynys Môn	41	3%	3%
Merthyr Tudful	159	10%	2%
Sir Fynwy	33	2%	3%
Castell-nedd Port Talbot	30	2%	4%
Casnewydd	240	16%	4%
Sir Benfro	8	1%	4%
Powys	18	1%	6%
Rhondda Cynon Taf	347	23%	7%

Abertawe	0	0%	6%
Bro Morgannwg	29	2%	4%
Torfaen	36	2%	2%
Wrecsam	24	2%	5%

Mae tablau 3 i 5 yn rhoi trosolwg o ddosbarthiad proffiliau ymatebwyr yr arolwg ar draws sawl nodwedd ddemograffig, gan gwmpasu statws ADY, cymhwysra ar gyfer prydau ysgol am ddim, a yw'r dysgwr yn mynychu ysgol drefol neu wledig, ac incwm yr aelwyd. Cafodd gwybodaeth am statws ADY, cymhwysra ar gyfer prydau ysgol am ddim, ac incwm aelwyd ei hadrodd amdanynt gan yr ymatebwyr eu hunain ac ni chafodd ei gwirio'n annibynnol.

Tabl 3: ymatebion i'r arolwg yn ôl a oes gan y dysgwr ADY

	Nifer yr ymatebion	Canran yr ymatebion
ADY	163	11%
Ddim ag ADY	1,261	83%
Yn well gen i beidio â dweud	39	3%
Ddim yn gwybod	54	4%

Tabl 4: ymatebion i'r arolwg yn ôl a yw'r dysgwr yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim sy'n destun prawf modd (dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim)

	Nifer yr ymatebion	Canran yr ymatebion
Dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim	445	29%
Ddim yn gymwys am brydau ysgol am ddim	946	62%
Ddim yn gwybod	126	8%

Tabl 5: ymatebion i'r arolwg yn ôl a yw'r dysgwr yn mynychu ysgol drefol neu wledig

	Nifer yr ymatebion	Canran yr ymatebion
Gwledig	373	25%
Trefol	1,107	73%

Heb ei nodi ¹	37	2%
--------------------------	----	----

Tabl 6: ymatebion i'r arolwg fesul incwm aelwyd, cyn treth a chan gynnwys budd-daliadau

	Nifer yr ymatebion	Canran yr ymatebion
Islaw £10,000	100	7%
£10,001 i £20,000	170	11%
£20,001 i £30,000	174	11%
£30,001 i £40,000	160	11%
£40,001 i £50,000	143	9%
Dros £50,000	498	33%
Yn well gen i beidio â dweud	272	18%

¹ Penderfynwyd a yw'r dysgwr yn mynychu ysgol drefol neu ysgol wledig yn seiliedig ar enw'r ysgol a roddwyd yn yr arolwg. Ni roddwyd enw'r ysgol mewn 37 o ymatebion.

Atodiad 3: Profion ystadegol

Atodiad 3.1: Cyflwyniad

Cynhaliwyd profion ystadegol i asesu a oedd y deilliannau a ddewiswyd yn amrywio ar draws nodweddion y rhai a wnaeth ymateb i'r arolwg. Pwrpas y dadansoddiad hwn oedd archwilio a oedd dosbarthiad yr ymatebion yn wahanol rhwng grwpiau ac i nodi a oedd unrhyw wahaniaethau a ganfuwyd yn arwyddocaol yn ystadegol, y tu hwnt i'r hyn y gellid ei ddisgwyl trwy siawns yn unig.

Canolbwyntiodd y dadansoddiad ar y deilliannau UPFSM canlynol:

- Arbedion i aelwydydd
- Iechyd a llesiant canfyddedig plant

Dewiswyd y deilliannau hyn oherwydd eu bod yn cynrychioli effeithiau craidd bwriadedig y polisi ac fe'u mesurwyd gan ddefnyddio opsiynau ymateb arolwg categorïaidd.

Cynhaliwyd y profion i arsylwi gwahaniaethau mewn deilliannau ar draws nodweddion canlynol y rhai a wnaeth ymateb i'r arolwg:

- Cymhariaeth ar draws bandiau incwm aelwydydd
- Cymhariaeth rhwng ymatebwyr trefol a gwledig
- Cymhariaeth ar draws aelwydydd â phlant sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim sy'n seiliedig ar incwm ac sy'n destun prawf modd a'r rhai nad oeddent
- Cymhariaeth ar draws aelwydydd â phlant ag ADY a'r rhai nad ydynt

Atodiad 3.2: Dulliau

Gan fod y deilliannau a'r newidynnau cymharu ill dau yn gategorïaidd eu natur, defnyddiwyd profion chi sgwâr ar gyfer annibyniaeth i asesu a oedd cysylltiad rhwng pob deilliant a nodwedd yr ymatebydd a archwiliwyd. Ochr yn ochr â'r prawf chi sgwâr, cyfrifwyd V Cramér ar gyfer pob cymhariaeth i ddarparu mesur safonol o faint yr effaith. Mae hyn yn dangos cryfder unrhyw gysylltiad a nodwyd, yn annibynnol ar faint y sampl.

Mae'r prawf chi sgwâr yn asesu a yw gwahaniaethau mewn dosraniadau ymatebion ar draws grwpiau yn arwyddocaol yn ystadegol. Ar gyfer yr astudiaeth hon, aseswyd arwyddocâd ystadegol gan ddefnyddio'r lefel 5%.

Mae V Cramér yn rhoi arwydd o gryfder y cysylltiad pan ganfyddir canlyniad sy'n arwyddocaol yn ystadegol. Ar gyfer yr astudiaeth hon, dehonglwyd y canlyniadau fel a ganlyn:

- Mae gwerthoedd o gwmpas 0.10 yn dynodi cysylltiad bach
- Mae gwerthoedd o gwmpas 0.30 yn dynodi cysylltiad canolig
- Mae gwerthoedd tua 0.50 neu uwch yn dynodi cysylltiad mawr

Mae'n bwysig nodi nad yw'r profion hyn yn dangos cyfeiriad y berthynas nac yn awgrymu achosiaeth. Maen nhw ond yn nodi a yw patrymau ymateb yn wahanol rhwng grwpiau.

Yn ogystal, gan fod gan rai categorïau nifer isel o arsylwadau mewn bandiau penodol, mae yna achlysuron pan fo rhai grwpiau'n cael eu cyfuno. Mae hyn er mwyn rhoi mwy o gadernid i meintiau'r samplau a arsylwyd ym mhob categori er mwyn sicrhau mwy o hyder ynghylch y canlyniadau a gynhyrchwyd.

Cynhaliwyd profion ystadegol gan ddefnyddio RStudio ar gyfer y cwestiynau a nodweddion ymatebwr canlynol (mae cwestiynau llawn ar gael yn

Atodiad 4: Sgript yr arolwg):

- c12 Yn gyffredinol, a yw nifer y ciniawau ysgol y mae eich plentyn yn eu cael bob wythnos wedi newid ers gweithredu'r polisi UPFSM? *(ADY, dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, trefol/gwledig, incwm aelwyd)*
- c13 Pam ydych chi, fel teulu, yn dewis ciniawau ysgol, boed bob dydd neu ar ddiwrnodau dethol? *(incwm yr aelwyd)*
- c14 Pam ydych chi, fel teulu, yn dewis peidio â chael ciniawau ysgol, boed bob dydd neu ar ddiwrnodau dethol? *(trefol/gwledig)*
- c15b Yn gyffredinol, sut fydddech chi'n sgorio'r ciniawau ysgol sydd ar gael yn ysgol eich plentyn o ran iechyd a maeth? *(dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim)*
- c16c Tua faint o arian ydych chi'n ei arbed bob wythnos nawr drwy baratoi llai o becynnau cinio? *(ADY, dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, trefol/gwledig, incwm aelwyd)*
- c16d Tua faint o arian ydych chi'n ei arbed bob wythnos nawr o ganlyniad i beidio â gorfod talu am giniawau ysgol? *(ADY, dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, trefol/gwledig, incwm aelwyd)*
- q17a Adolygwch y datganiadau canlynol a dewiswch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y polisi UPFSM wedi effeithio ar eich aelwyd yn y meysydd a restrir isod: Rydw i'n gwario llai o arian yn prynu neu'n paratoi cinio i'm plentyn *(dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, trefol/gwledig)*
- c18 Adolygwch y datganiadau canlynol a dewiswch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y polisi UPFSM wedi effeithio ar eich plentyn o oedran ysgol gynradd yn y meysydd a restrir isod. *(ADY, dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, trefol/gwledig, incwm aelwyd)*
- c19 Pa effeithiau, os o gwbl, ydych chi'n credu y mae cyflwyno UPFSM wedi'u cael ar iechyd a llesiant eich plentyn? *(incwm yr aelwyd)*
- c21 A yw eich plentyn wedi sôn am unrhyw newidiadau i'r canlynol ers cyflwyno UPFSM? Sŵn yn yr ystafell fwyta *(ADY, dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim)*
- c21 A yw eich plentyn wedi sôn am unrhyw newidiadau i'r canlynol ers cyflwyno UPFSM? Yr amgylchedd bwyta *(ADY, dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim)*

Atodiad 4: Sgript yr arolwg

Cyflwyniad

Helô!

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr arolwg hwn, sydd â'r nod o gasglu eich barn ar bolisi prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (UPFSM) – polisi Llywodraeth Cymru sy'n cynnig prydau ysgol am ddim i bob plentyn oedran cynradd mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r arolwg hwn yn cael ei gynnal gan ICF, ar ran Llywodraeth Cymru, fel rhan o werthusiad o'r polisi UPFSM. Nod y gwerthusiad yw casglu mewnwelediadau i weithrediad y polisi UPFSM hyd yn hyn a nodi unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg. Drwy rannu eich profiadau, gallwch ein helpu i nodi beth sy'n gweithio'n dda a pha welliannau y gellir eu gwneud i'r polisi UPFSM er budd pellach i blant, teuluoedd ac ysgolion.

Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau am y canlynol:

- Eich barn chi a barn eich plentyn/plant ar ansawdd a dewis prydau ysgol a'r graddau y maent yn iach ac yn faethlon.
- Unrhyw effeithiau y mae cael mynediad at brydau ysgol am ddim wedi'u cael ar eich plentyn a'ch teulu.

Os oes gennych fwy nag un plentyn yn yr ysgol gynradd, atebwch gwestiynau'r arolwg yn seiliedig ar eich plentyn hynaf yn yr ysgol gynradd yn unig.

Gofynnwn i chi gwblhau pob adran ond byddwch yn dawel eich meddwl bod pob blwch testun yn ddewisol. Byddem yn awyddus iawn i glywed mwy o gyd-destun os gallwch ei rannu, ond peidiwch â theimlo'r angen i ychwanegu mwy o fanylion yn y blychau testun.

Bydd eich ymatebion yn ddienw ac yn cael eu trin yn gyfrinachol. Bydd ICF yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i lunio adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol. Mae rhagor o wybodaeth am sut y bydd y data a gesglir yn cael eu defnyddio ar gael yn yr hysbysiad preifatrwydd, y gellir ei ddarllen yma (dolen).

Diolch eto am roi o'ch amser gwerthfawr i gwblhau'r arolwg hwn.

Tîm Gwerthuso UPFSM Llywodraeth Cymru

Cydsyniad

Rydw i wedi darllen yr wybodaeth uchod ac yn cytuno i gymryd rhan yn y gwerthusiad hwn.

- Ydw
- Nac ydw

Data proffil

c1 Oes gennych chi blentyn, neu blant, o oedran ysgol gynradd sy'n mynychu ysgol gynradd yng Nghymru?

- Oes
- Nac oes

c2 Faint o blant yn eich cartref sy'n mynychu ysgol gynradd ar hyn o bryd?

- 1
- 2
- 3
- 4 neu fwy

Os oes mwy nag un plentyn gennych:

Gan fod gennych fwy nag un plentyn yn yr ysgol gynradd, atebwch y cwestiynau canlynol yn seiliedig ar eich **plentyn hynaf yn yr ysgol gynradd yn unig**.

c3 Yn mha flwyddyn ysgol mae eich plentyn ar hyn o bryd?

- Dosbarth derbyn
- Blwyddyn 1
- Blwyddyn 2
- Blwyddyn 3
- Blwyddyn 4
- Blwyddyn 5
- Blwyddyn 6

c4 A oes gan eich plentyn anghenion dysgu ychwanegol (ADY)?

- Oes
- Nac oes
- Yn well gen i beidio â dweud
- Ddim yn gwybod

c5 A yw eich plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n destun prawf modd (dysgwr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim*)?

**Gall plentyn fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw ei riant neu ofalwr yn cael rhai budd-daliadau, gan gynnwys Credyd Cynhwysol (yn amodol ar drothwy incwm a enillir), Cymhorthdal Incwm, neu fudd-daliadau cysylltiedig.*

- Ydy

- Nac ydy
- Ddim yn gwybod

c6 Ym mha awdurdod lleol mae eich plentyn yn mynd i'r ysgol?
(*Rhestr o holl awdurdodau lleol Cymru*)

c7 Beth yw enw'r ysgol?
(*Testun agored*)

Effaith polisi prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yng Nghymru

c8 Cyn darllen yr arolwg hwn, a oeddech chi'n ymwybodol bod gan bob plentyn oedran cynradd sy'n mynychu ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru fynediad at ginio ysgol am ddim?

- Oeddwn
- Nac oeddwn

c9 Beth yw eich barn chi am hyn?
(*Testun agored*)

c10 Ar gyfartaledd, faint o giniawau ysgol mae eich plentyn yn eu bwyta bob wythnos?

- 0 / Dim
- 1
- 2
- 3
- 4
- 5
- Ddim yn gwybod

c11 A oedd eich plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (dysgwr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim) sy'n destun prawf modd cyn mis Medi 2022?

- Oedd
- Nac oedd
- Ddim yn gwybod

c12 Yn gyffredinol, a yw nifer y ciniawau ysgol y mae eich plentyn yn eu cael bob wythnos wedi newid ers gweithredu'r polisi UPFSM?

- Mae fy mhlentyn yn cael **mwya** o brydau ysgol bob wythnos nawr
- Mae fy mhlentyn yn cael **yr un nifer** o brydau ysgol bob wythnos ag oedd yn ei gael o'r blaen

- Mae fy mhlentyn yn cael **llai** o brydau ysgol bob wythnos nawr
- Ddim yn gwybod

c12a Defnyddiwch y gofod isod i ymhelaethu ar eich ateb.
(*Testun agored*)

c13 Pam ydych chi, fel teulu, yn dewis ciniawau ysgol, boed bob dydd neu ar ddiwrnodau dethol?

Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

- Oherwydd eu bod am ddim
- Y dewis o brydau bwyd sydd ar gael
- Ansawdd y bwyd sydd ar gael
- Mae'n fwy cyfleus na pharatoi pecyn cinio
- Mae fy mhlentyn yn hoffi blas y bwyd
- Mae fy mhlentyn yn meddwl bod y prydau bwyd yn ei lenwi
- Mae'r prydau bwyd yn rhoi egni i'm plentyn
- Mae ffrindiau/ cyd-ddisgyblion fy mhlentyn yn cael cinio ysgol
- Ddim yn gwybod
- Arall (nodwch)

c13a Defnyddiwch y gofod isod i ymhelaethu ar pam rydych chi, fel teulu, yn dewis ciniawau ysgol.
(*Testun agored*)

c14 Pam ydych chi, fel teulu, yn dewis **peidio â** chael ciniawau ysgol, boed bob dydd neu ar ddiwrnodau dethol?

Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

- Y dewis o brydau bwyd sydd ar gael
- Ansawdd y bwyd sydd ar gael
- Dyw fy mhlentyn ddim yn hoffi blas y bwyd
- Amgylchedd yr ystafell fwyta (awyrgylch, sŵn, ciwiau, ymddygiad ac ati)
- Nid yw fy mhlentyn yn meddwl bod y prydau bwyd yn ei lenwi digon
- Nid yw'r prydau bwyd yn rhoi digon o egni i fy mhlentyn
- Mae'n well gan fy mhlentyn becyn cinio
- Mae ffrindiau / cyd-ddisgyblion fy mhlentyn yn cael pecynnau cinio

- Ddim yn gwybod
- Arall (nodwch)

c14a Defnyddiwch y gofod isod i ymhelaethu ar pam rydych chi, fel teulu, yn dewis peidio â chael ciniawau ysgol.

(Testun agored)

c15a Ar y cyfan, sut fydddech chi'n graddio'r ciniawau ysgol sydd ar gael yn ysgol eich plentyn o ran **dewis / ystod y prydau bwyd**?

- Dewis da
- Dewis digonol
- Dewis gwael
- Ddim yn gwybod / dim barn

c15b Yn gyffredinol, sut fydddech chi'n graddio'r ciniawau ysgol sydd ar gael yn ysgol eich plentyn o ran **iechyd a maeth**?

- Yn iachus ac yn faethlon iawn
- Yn gymharol iach a maethlon
- Ddim yn iach nac yn faethlon
- Ddim yn gwybod / dim barn

c16 A yw argaeledd cinio ysgol am ddim wedi cael effaith ar gyllid eich teulu?

- Ydy, rhywfaint o arbedion o ran cost
- Nac ydy
- Ddim yn gwybod

c16a Fe wnaethoch chi ateb nad yw argaeledd cinio ysgol am ddim wedi effeithio ar gyllid eich teulu. Rhwch rai manylion.

(Testun agored)

c16b Mae'r arbedion hyn o ran cost wedi bod o ganlyniad i ba rai o'r canlynol:
Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

- Peidio â gorfod talu am gymaint o giniawau ysgol bob wythnos mwyach
- Peidio â gorfod paratoi cymaint o becynnau cinio bob wythnos mwyach
- Arall (nodwch)

c16c Tua faint o arian ydych chi'n ei arbed bob wythnos nawr drwy baratoi llai o becynnau cinio?

- Llai na £5

- £5 i £10
- £10 i £15
- £15 i £20
- Dros £20
- Ddim yn gwybod

c16d Tua faint o arian ydych chi'n ei arbed bob wythnos nawr o ganlyniad i beidio â gorfod talu am giniawau ysgol?

- Llai na £5
- £5 i £10
- £10 i £15
- £15 i £20
- Dros £20
- Ddim yn gwybod

q17 Adolygwch y datganiadau canlynol a dewiswch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y polisi UPFSM wedi effeithio ar eich aelwyd yn y meysydd a restrir isod.

Graddfa: Cytuno'n gryf / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf / Dim barn

- Rydw i'n gwario llai o arian ar brynu neu baratoi cinio i'm plentyn
- Mae ein prydau bwyd cartref neu arferion coginio wedi newid
- Does dim rhaid i mi boeni ynghylch a oes gan fy mhlentyn ddigon o fwyd yn ystod y dydd
- Mae'n arbed amser roeddwn i'n arfer ei dreulio yn paratoi pecyn cinio
- Mae'n golygu nad oes rhaid i mi boeni am gael digon o arian i dalu am giniawau ysgol
- Mae wedi helpu fy mherthynas â staff yr ysgol
- Rydw i'n teimlo llai o bryder am fy mhlentyn yn sylwi ar unrhyw bryderon ariannol sydd gen i

c18 Adolygwch y datganiadau canlynol a dewiswch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y polisi UPFSM wedi effeithio ar eich plentyn o oedran ysgol gynradd yn y meysydd a restrir isod.

Graddfa: Cytuno'n gryf / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf / Dim barn

- Mae fy mhlentyn yn mwynhau amser cinio'r ysgol yn fwy
- Mae fy mhlentyn yn rhoi cynnig ar fwydydd newydd
- Mae gan fy mhlentyn fwy o egni ar gyfer gweithgareddau'r prynhawn
- Mae fy mhlentyn yn llai pryderus am arian yn yr ysgol
- Mae fy mhlentyn yn llai pryderus am fwyd yn yr ysgol
- Gall fy mhlentyn ganolbwyntio'n well ar yr ysgol a gwersi
- Mae fy mhlentyn yn mwynhau'r ysgol yn fwy

c19 Pa effeithiau, os o gwbl, ydych chi'n credu y mae cyflwyno UPFSM wedi'u cael ar iechyd a llesiant eich plentyn?

- Effaith gadarnhaol sylweddol
- Rhywfaint o effaith gadarnhaol
- Ni wnaeth unrhyw wahaniaeth
- Rhywfaint o effaith negyddol
- Effaith negyddol sylweddol
- Ddim yn gwybod / dim barn

c19a Defnyddiwch y gofod isod i ymhelaethu ar eich ateb.
(*Testun agored*)

c20 A ydych chi'n credu bod cynnig pryd ysgol am ddim i bob plentyn wedi lleihau unrhyw stigma a allai fod yn gysylltiedig â chael prydau ysgol am ddim sy'n destun prawf modd?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

c20a Defnyddiwch y gofod isod i ymhelaethu ar eich ateb.
(*Testun agored*)

c21 A yw eich plentyn wedi sôn am unrhyw newidiadau i'r canlynol ers cyflwyno UPFSM?

Graddfa: Llawer gwell / Ychydig yn well / Yr un peth / Ychydig yn waeth / Llawer gwaeth / Ddim yn gwybod

- Sŵn yn yr ystafell fwyta
- Amgylchedd yr ystafell fwyta
- Ciwiau cinio
- Amser ar gael ar gyfer cinio

- Dewisiadau bwyd
- Ansawdd bwyd
- Blas bwyd
- Meintiau dognau
- Arlwyio ar gyfer anghenion deietegol penodol
- Lefelau staffio yn yr ystafell fwytfa
- Sbwriel o lapio pecyn cinio
- Arall (nodwch)

c22 A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud wrthym am sut mae UPFSM wedi effeithio ar brofiad eich plentyn yn yr ysgol?
(*Testun agored*)

c23 A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud wrthym am sut mae UPFSM wedi effeithio arnoch chi fel rhiant neu ofalwr?
(*Testun agored*)

c23b A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud wrthym am sut mae UPFSM wedi cael effaith ar brofiad eich plentyn arall, neu blant eraill, o'r ysgol?
(*Testun agored*)

Proffil aelwyd

c24 Beth yw cyfansoddiad eich aelwyd?

- Rhiant / gofalwr sengl
- Dau riant / gofalwr
- Arall (nodwch)
- Yn well gen i beidio â dwed

c25 Dywedwch wrthym gyfanswm incwm blyneddol eich aelwyd (cyn treth, gan gynnwys unrhyw fudd-daliadau):

- Islaw £10,000
- £10,001 i £20,000
- £20,001 i £30,000
- £30,001 i £40,000
- £40,001 i £50,000
- Dros £50,000

- Yn well gen i beidio â dweud

c26 Beth yw eich cefndir ethnig?

(Categoriâu cyfrifiad safonol y DU fel y'u rhestrir yn yr arolwg)

c27 A ydych chi'n ystyried bod gennych anabledd, amhariad neu gyflwr iechyd?

- Ydw
- Nac ydw
- Yn well gen i beidio â dweud

c28 Beth yw'r brif iaith a siaredir ar eich aelwyd?

- Saesneg
- Cymraeg
- Arall (nodwch)
- Yn well gen i beidio â dweud

c29 A oes gan y plentyn rydych chi wedi ateb yr arolwg hwn amdano unrhyw anghenion deietegol penodol?

- Halal
- Kosher
- Llysieuwr
- Fegan
- Alergeddau
- Arall (nodwch)
- Dim